
# Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri

## Y Rheilffordd Adfywiol



# Rheilffyrdd Festiniog ac Eryri
## Caernarfon i Blaenau Ffestiniog




© Gordon Rushton 2012

# Ein Gwledigaeth a'n Bwriad

Bwriad y Rheilffordd Adfywiol yw gadael Rheilffyrdd Festiniog ac Eryri mewm gwell cyflwr nac y cawsant eu canfod. Datblygu'r rheilffordd yn gynaliadwy heb golli'r hyn sy'n ardderchog a'r hyn rydym wedi'i etifeddu oddi wrth genedlaethau blaenorol. O ganlyniad, byddwn yn trosglwyddo rheilffordd i genedlaethau'r dyfodol sy'n ffynnu, yn rhoi budd i gefnogwyr, cymdogion a chwsmeriaid, ac mewn safle da ar gyfer ei thrydedd canrif o weithredu.

# Rhagymadrodd – O Gynaliadwy i Adfywiol

Cafodd ein strategaeth bresennol – 'Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri – Dyfodol Cynaliadwy' ei chyhoeddi yn 2011. Yn cael ei galw fel arfer 'Y Rheilffordd Gynaliadwy', daeth yn ddatganiad gweledigaeth i'r rheilffordd ac mae'n parhau felly.

Ffurfiodd y Rheilffordd Gynaliadwy ein cynllunio dros yr un flynedd ar ddeg diwethaf. Gwnaeth cefnogwyr – gan gynnwys y ddwy Gymdeithas – ei chymeradwyo. Nid ydym wedi gweld unrhyw reswm i'w newid, heblaw am lenwi un bwlch. Dywedodd y ddogfen wreiddiol ychydig am bobl a'u hymddygiadau. Mae ymddygiadau'n adlewyrchu gwerthoedd craidd. Cafodd dogfen atodol 'Gwerthoedd ac Ymddygiadau' ei hychwanegu. Mae hon yn awr wedi cael ei hadolygu i ffurfio rhan gyfannol o'r strategaeth newydd hon.

Mae cyfres o brosiectau a gweithredoedd wedi helpu i droi'r weledigaeth wreiddiol yn realiti. Gan fod cymaint o'r gwaith a gafodd ei andabod yn benodol yn rhestr y prosiect ddeng mlynedd yn ôl wedi digwydd yn awr mae'r Rheilffordd Gynaliadwy yn dechrau dangos ei hoed fel datganiad pwrpas.

Mae'n bryd i ailymweld â'n gweledigaeth.

Bydd ein rheilffyrdd yn dathlu cyfres o benblwyddi nodedig yn ystod y degawd nesaf. Mae 2022 yn nodi canmlwyddiant y trenau teithwyr cyntaf ar y Rheilffordd Ucheldir wreiddiol, yn ogystal â 25 mlynedd ers i adran gyntaf y rheilffordd newydd gael ei hagor. Mae hyn yn cael ei ddilyn gan ganmlwyddiant agor Rheilffordd yr Ucheldir yn 2023 ac mae'n cyrraedd uchafbwynt â dauganmlwyddiant Deddf Rheilffordd Ffestiniog 1832.

Deng mlynedd yn ôl, roedd y ffocws ar gynaliadwyedd. Mae Datblygiad Cynaliadwy yn cael ei ddiffinio'n ffurfiol fel 'datblygiad sy'n ateb anghenion y presennol heb gyfaddawdu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain'.

Roeddwm yn meddwl yr adeg honno nad oedd y diffiniad safonol hwn yn adlewyrchu'n blaeonoriaethau na'n pwrpas cadwraeth ein hunain. Felly, fe wnaethom ychwanegu 'a heb golli'r hyn sy'n ardderchog a'r hyn rydym wedi'i etifeddu oddi wrth genedlaethau blaenorol.'

Cafodd Y Rheiffordd Gynaliadwy ei gyhoeddi sawl blwyddyn cyn i Lywodraeth Cymru ddeddfu'r statud sy'n gwneud llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn nod penodol i Gymru gyfan. Ymddangosai cydnabod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn y ffordd hon yn eithaf blaengar ddeng mlynedd yn ôl. Fodd bynnag, mae 'cynaliadwy' yn parhau'n nod sydd ddim yn negyddol. Y cam nesaf yw symud o beidio bod yn negyddol i fod yn gadarnhaol – o beidio cyfaddawdu'r dyfodol i geisio'n weithredol i adael y rheilffordd mewn cyflwr gwell nac y gwnaethom ei chanfod. Nid oes ansoddair sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i ddisgrifio'r cam hwn – yn sicr nid mewn amgylchedd rheilffordd. Yr agosaf – yn awr yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol mewn amaethyddiaeth a meddygaeth – yw adfywiol. Yr ystyr yw gwella'r hanfodion – nid delio â'r symtomau yn unig. Diffiniad Geiriadur Saesneg Rhydychen yw 'wedi'i adfer i gyflwr gwell.'

Mae adfywiol yn cynnwys cynaliadwy – ond mae'n mynd â'r cysyniad gam ymhellachh ac yn cynyddu'r ffocws ar bobl. Dyna'r cam rydym yn ei gymryd yn awr.

Mae'r papur gweledigaeth hwn yn dod mewn tair rhan. Mae Rhan Un yn amlinellu'r hyn mae'r 'Rheilffordd Adfywiol' yn anelu i'w wneud. Mae pa mor dda mae'r weledigaeth hon yn gweithio mewn gwirionedd yn dibynnu ar bobl a sut maen nhw'n ymddwyn. Mae Rhan Dau yn amlinellu'r Gwerthoedd ac Ymddygiadau mae'r rheilffordd wedi'u mabwysiadu. Yn olaf, mae gan ddarllenwyr a chefnogwyr bob hawl i ofyn pa gred maen nhw'n gallu rhoi ar ddatganiadau gweledigaeth neu strategaeth a gyhoeddir pob deng mlynedd. Felly, mae Rhan Tri yn ôl-syllol – mae'n adrodd ar ganlyniadau'n strategaeth flaenorol – y Rheilffordd Gynaliadwy.



# Rhan Un –Y Rheilffordd Adfywiol

## 1.1 Amcanion Bras

Ein nod yw darparu yfory gwell heb golli'r hyn sy'n ardderchog a'r hyn rydym wedi'i etifeddu oddi wrth genedlaethau blaenorol. Yn y ffordd hon, mae'n gweithredoedd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r rheilffordd yn bodoli yn unig oherwydd bod pobl yn ei mwynhau a'i gwerthfawrogi. Nid yw'n weithgaredd masnachol confensiynol. Nid yw chwaith yn rhywbeth fel draeniau neu gyflenwad pŵer sy'n darparu angen sylfaenol. Mae'r rheilffordd yma oherwydd bod pobl yn dymuno iddi fod. Mae'n rheilffordd sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr a chyfranwyr. Mae'n gallu parhau i fodoli yn unig ar yr amod fod y cyfanwyr a'r gwirfoddolwyr hynny yn teimlo bod eu cyfraniadau yn cael eu cydnabod ac yn cael eu defnyddio'n dda. Mae'n dyfodol yn dibynnu ar bobl yn mwynhau y rheilffordd gymaint eu bod yn cael eu denu i'w gweld, i wirfoddoli arni, a helpu i'w chynnal.

Ehangodd y Rheilffordd Gynaliadwy gwmpas blaenoriaethau cadwraeth y rheilffordd. Roedd locomotifau a'r llwybr ei hun wedi bod yng nghanol y llwyfan bob amser a rhoddodd y Rheilffordd Gynaliadwy statws tebyg i gerbydau trên, wageni ac adeiladau. Mae'r seilwaith – pontydd, waliau ffiniau a strwythurau eraill – yn gymaint rhan o'n treftadaeth â locomotifau, cerbydau, ac adeiladau a byddant yn awr yn cael eu cydnabod â gwerth treftadaeth cydradd. Ymrwymodd ein gweledigaeth Treftadaeth Byd ni (wedi'i gynnwys yn y cynnig i UNESCO) i gynnal, cadw a gweithredu Rheilffordd Ffestiniog… yn y fath fodd â chadw ei harwyddocâd, cymeriad a naws hanesyddol. Bydd Cadw yn cyflwyno rhan o'r ffurfiad fel Cofeb Restredig fel rhan o'r broses. Mae Safle Treftadaeth y Byd yn gymwys i un o'n rheilffyrdd yn unig ond byddwn yn trin y ddwy o'r un gwerth. Mae adfer pont Plas y Nant ar Reilffordd Eryri i safonau modern ond mewn ffurf hanesyddol yn enghraifft o hyn. Mae'n strwythur eiconig ond nid yw wedi'i restru nac o fewn Safle Treftadaeth y Byd.

Mae Cynaliadwy ac Adfywiol fel arfer yn cael eu mesur yn nhermau effeithiau economaidd, cymunedol ac amgylcheddol. Mae'r symudiad o gynaliadwy at adfywiol yn codi safonau yn y ddau faes hyn, ond y tri maen prawf hyn sy'n parhau'n feincnodau i fesur yn eu herbyn. Mae'r pedair adran nesaf yn amlinellu'n gweledigaeth o dan y meini prawf hyn. Mae hyn yn cael ei ddilyn gan adrannau sy'n rhestru yn gyntaf, cynlluniau mawr ac yn ail, y prosiectau rydym yn bwriadu eu cyflawni i droi'r weledigaeth yn ffaith.

## 1.2 Economeg

Oni bai fod rheilffordd yn economaidd hyfyw nid yw'n gallu fforddio parhau i weithredu – heb sôn am wella na chyflawni unrhyw beth arall. Felly, cyflwr ein cyllid yw'r man cychwyn amlwg.

Mae'r rheilffordd wedi sefydlu sefyllfa ariannol gadarn. Dangosodd ein profiad yn 2020 a 2021 y risgiau o ddibynnu ar orddrafft bob blwyddyn i fynd i'r afael â natur dymhorol y busnes. Ein hamcan yn awr yw adeiladau cronfa wrth gefn a dileu'r angen am orddrafft i ofalu am anghenion arian yn ystod y gaeaf. Bydd y cyfleuster gorddrafft wedyn yn dod yn ddarpariaeth yn niffyg popeth arall – yswiriant yn erbyn risgiau mawr.

Gellir rhannu'n ffrydiau incwm yn ddwy ran. Y gyntaf yw refeniw o fasnachu a'r ail yn arian wedi'i dderbyn o roddion, ewyllysiau, grantiau a chyfraniadau gan y Cwmni Teithio a'r Cymdeithasau.

Rydym yn gweld y ddwy ffrwd incwm hyn yn wahanol.

Mae'n refeniw craidd yn dod oddi wrth y rheini sy'n ymweld ac yn teithio ar y rheilffordd. Mae hwn yn grŵp mawr ac amrywiol o bobl – dros 200,000 bob blwyddyn. Mae'r rheilffordd o fewn ac yn ffurfio elfen bwysig o Safle Treftadaeth Byd 'Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru' newydd UNESCO ac mae'n darparu porth pwysig i'r Safle hwn. Mae teithiau ar ein rheilffordd yn rhoi'r cyfle i deithwyr weld y Safle Treftadaeth Byd hwn yn ogystal ag Eryri ac i'w deall yn well. Ymhellach, maen nhw'n gallu teithio mewn ffordd anarferol a diddorol, bod yn gyfforddus, a chael gofal o'r safonau modern gorau ar hyd y daith. Mae arlwyo, manwerthu a chontractau gweithdai allanol yn cefnogi'r gweithgaredd craidd. Mae angen i'r holl weithgareddau hyn fod yn broffidiol ynddynt eu hunain.

Arweiniodd y cynnig ymddangos a mynd traddodiadol i deithwyr at lwythau anwastad, â dim ond tua hanner y seddi ar gael yn cael eu cymryd. Fe wnaethom symud at system archebu gyflawn i ateb anghenion Covid. Roedd hyn yn gwarantu eu gofod personol eu hunain i gwsmeriaid. Hefyd, amlygodd y ffaith fod ein cwsmeriaid yn dymuno dewis o amrywiaeth o brofiadau – o daith diwrnod allan llawn dwy ffordd ar Reilffordd Eryri i daith fyrrach, neu hyd yn oed olwg y tu ôl i'r llenni ar ran ddetholedig o'r rheilffordd.

Fel yn achos pob newid mawr mae manteision ac anfanteision. Nid yw cyflwyno'n cynigion fel 'profiadau' yn hytrach nac 'amserlen' yn draddodiadol ac mae'n teimlo'n llai digymell – ac mae'n anoddach i ddarparu'n effeithiol ar gyfer teithiau byr ac anarferol. Fodd bynnag, mae'r elfennau cadarnhaol yn sylweddol. Mae cael sedd wedi'i sicrhau wedi profi'n gysurlon a phoblogaidd. Mae llwythau a derbyniadau trenau wedi gwella.

Mae wedi arwain at gynnydd mawr mewn effeithlonrwydd. Byddwn yn adeiladu ar y model hwn ac yn ychwwanegu'r cyfle am deithiau gwahanol. Bydd hyn yn cael ei wneud yn ofalus, un cam ar y tro, i osgoi colli'r enillion a wnaed trwy ragarchebu.

Rydym yn disgwyl i'r ffrwd refeniw hon gwmpasu ein costau blynyddol ac i gyfrannu at adnewyddiadau mawr. Mae gwelliannau'n arwain at ragor o asedau, ond mae'r sylfaen asedau gynyddol hon yn gofyn am ragor o incwm i dalu am ei chynnal. Mae angen i ni fod yn ofalus iawn. Mae rheilffyrdd mewn ardaloedd anghysbell yn nodedig o amhroffidiol, a hyd yn oed â chyfraniad gwirfoddolwyr nid yw'r elw yn fawr bob blwyddyn.

Mae'r elw yn cael ei ailfuddsoddi bob tro mewn gwella'r rheilffordd. Fodd bynnag, gan fod derbyniadau blynyddol mor agos at gostau blynyddol, dim ond rhan fach o'r arian sy'n cael ei wario ar welliannau sy'n dod o'r elw gweithredol hwn.

Mae hynny wedi arwain at ffurf syml braidd o gynllun busnes. Mae'n rhaid i gostau blynyddol gael eu hateb gan refeniwau blynyddol. Mae cyllideb fanwl iawn yn amlinellu sut y disgwylir i hyn gael ei gyflawni. Rydym yn gallu cwmpasu llawer ond nid pob adnewyddiad mawr o fewn y pennawd hwn.

Mae prosiectau gwella ar wahân. Mae gan bob un ei gynllun prosiect ei hun â chyllid wedi'i adnabod sy'n dod i raddau helaeth iawn o roddion ac ewyllysiau. Mae'r rhain yn dod trwy'r Ymddiriedolaeth, neu un o'r Cymdeithasau cefnogol. Mae elwau o'r busnes Teithio Ffestiniog yn ychwanegu at gronfeydd yr Ymddiriedolaeth sydd ar gael ar gyfer datblygu.

Rydym yn ennill rhoddion ac ewyllysiau trwy gynnig achos i'n cefnogwyr gefnogi sy'n cyfuno pedwar nodwedd. Rhywbeth sydd nid yn unig yn *deilwng*, ond hefyd yn *gyffrous*. Mae angen i roddwyr fod yn hyderus na fydd eu haelioni yn cael ei wastraffu. Mae gennym hanes da am ddarparu yr hyn rydym wedi bwriadu i'w wneud, ond hefyd o'i *ddarparu* mewn ffordd sy'n *werth da iawn am arian*. Mae gwerth da yn golygu bod rhoddion ac ewyllysiau rhoddwyr yn cyflawni mwy am bob punt a roddir.

Mae'r rheilffordd yn denu llawer o roddwyr, gan gynnwys rhai sydd wedi noddi prosiectau cyfan, tystiolaeth glir eu bod yn ei ystyried yn *deilwng*. Mae apeliadau i'r byd rheilffordd yn gyffredinol wedi bod yn arbennig o lwyddiannus – felly mae llawer o bobl newydd wedi'i ganfod yn *gyffrous* i helpu datblygu Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri. Mae'r tasgau rydym wedi ymgymryd â hwy wedi bod yn enfawr am sefydliad o'n maint, ond maen nhw wedi cael eu cyflawni. Mae'n deg i honni ein bod wedi cyflawni ar ein rhaglenni mwyaf uchelgeisiol hyd yn oed. Ac yn olaf, mae'n costau yn eithriadol o isel o gymharu â chostau'r diwydiant rheilffordd ar gyfartaledd. O ganlyniad, mae rhoddwyr yn gallu bod yn hyderus y byddwn yn gwneud i'w rhoddion fynd ymhell.

Byddwn yn parhau i geisio grantiau allanol ar gyfer cynlluniau a phrosiectau. Ym mhob achos, mae cyllid a roddir trwy'r Ymddiriedolaeth a'r Cymdeithasau yn darparu'r arian cyfatebol sydd ei angen yn anochel i ddarbwyllo cyrff allanaol sy'n rhoi grantiau bod ein prosiectau yn haeddu cefnogaeth. Mae'r grantiau allanol hyn yn eu tro yn lluosogi buddion yr arian a roddir gan ein rhoddwyr.

## 1.3 Cymuned – Gwynedd

Mae effaith ar y gymuned yn gymaint o brif faen prawf ar gyfer asesu polisi adfywiol ag y mae ar gyfer cynaliadwyedd. Mae'r adran hon yn edrych ar y gymuned leol – Gwynedd – yn ei chyfanrwydd. Mae'r adran nesaf yn ystyried y gymuned reilffordd o fewn y diffiniad ehangach hwn.

Roedd gwaith academaidd wedi sefydlu eisoes yr effaith fawr a chadarnhaol mae'r rheilffordd yn ei chael ar economi fwy cyffredinol Gwynedd erbyn yr adeg y cafodd y Rheilffordd Gynaliadwy ei mabwysiadu. Mae'r cyfraniad dros £20m y flwyddyn. Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan waith diweddarach ac mae'r cyfraniad economaidd hwn yn awr yn cael ei gydnabod fel tir cyffredin mewn trafodaeth â Llywodraeth a buddiannau lleol.


Chris Parry

Mae'r swyddi rydym yn eu creu'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn ffurfio rhan bwysig o'n cyfraniad at y gymuned leol ehangach.

Nid yw'n hawdd canfod swyddi o ansawdd uchel yng Ngwynedd – yn enwedig y tu allan i'r sector cyhoeddus. Mae'r rheilffordd nid yn unig yn un o'r cyflogwyr mwyaf yn yr ardal, ond yn un sydd wedi dod yn ganolfan ragoriaeth nodedig mewn meysydd fel adeiladu cerbydau a pheirianneg fecanyddol, ac felly mae'n cynnig y cyfle i bobl leol ddatblygu sgiliau na fyddai fel arall yn bodoli mewn ardal mor anghysbell. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr yn aros am amser hir. Nid yw'n cael ei sylweddoli'n gyffredinol bod y rhan fwyaf o weithwyr parhaol y rheilffyrdd yn cael eu recriwtio o'r ardal. Mae dros hanner yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn parhau i noddi aelodau sefydlog o'n staff parhaol sydd ddim yn siarad Cymraeg ar hyn o bryd ond a hoffai wneud hynny.

Ymhellach, mae'r rheilffordd hefyd yn cefnogi tua 400 o swyddi ychwanegol yn lleol trwy wasanaethau a brynir i mewn gan y rheilffordd, ei staff, gwirfoddolwyr a theithwyr. Mae hynny'n arwyddocaol iawn mewn economi o faint un Gwynedd – cyfraniad mawr at gryfder economaidd y gymuned.

Mae'r rheilffordd yn chwarae rôl ddiwylliannol mewn arddangos a dehongli treftadaeth Gwynedd i'r rheini sy'n byw yn, ac i'r rheini sy'n ymweld â, Gogledd Cymru.

Mae'r rheilffordd yn arddangos y rheilffordd stêm gul – gan ddangos ei datblygiad cynnar yng Ngwynedd ar Reilffordd Ffestiniog yn ogystal a'r ffordd y cafodd ei datblygu wedi hynny ledled y byd. Mae'n adlewyrchu cyflawniadau cenedlaethau lawer o deuluoedd lleol – gan ddarparu cysylltiad â ffynhonnell balchder yng nghyflawniadau'r cenedlaethau blaenorol. Rydym yn falch iawn fod y budd diwylliannol yn cael ei gydnabod yn gynyddol a bod hyn yn cael ei ddangos gan rôl allweddol y rheilffordd o fewn Safle Treftadaeth Byd 'Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru'. Mae datblygu cysylltiadau ychwanegol â'r gymuned leol yn ffurfio rhan or prosiect presennol a gefnogir gan NLHF.

Mae mentrau ac atyniadau sy'n cynnig cynnyrch sy'n debyg iawn ym mhob man yn gwanhau hunaniaeth ac arwahanrwydd lleol. Mae'r rheilffordd yn unigryw ac maen dathlu hyn. Hunaniaeth leol sydd wedi'i diffinio'n glir, yn Gymreig iawn, ac i raddau helaeth yn siarad Cymraeg. Rydym yn deall pwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn ein cymuned ddwyieithog, lle mae dwy draean yn siarad Cymraeg.

Mae'n rhoddwyr, gwirfoddolwyr, a theithwyr, llawer o'r tu allan i'r ardal, yn cyllido'r cyfraniad hwn at y gymuned leol. Mae'r cyllid hwn yn cynrychioli cyfraniad net i mewn i Ogledd Cymru.

## 1.4 Cymuned – Cymuned Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri

Mae'r bobl sy'n cymryd rhan uniongyrchol yn Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri yn ffurfio grŵp ar wahân o fewn cymuned ehangach Gwynedd. Mae'r rheilffordd yn fenter ar y cyd – mae'n cynnwys llawer o bobl ac mae'n dod yn bwysig iawn i lawer.

Mae graddfa cymryd rhan yn naturiol yn amrywio. Mae rhwng chwech a saith mil wedi ymuno â'n Cymdeithasau cefnogi (Cymdeithas Rheilffordd Ffestiniog a Chymdeithas Rheilffordd Eryri / the Welsh Highland Railway Society). Mae tua mil wedi dod yn wirfoddolwyr gweithredol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwirfoddolwyr yn dod i weithio ar y rheilffordd – fel criw trên, fel gweithredwyr, yn ein gweithgareddau masnachol, mewn seilwaith (trac, signalu, adeiladau, strwythurau a garddwriaeth), neu yn y gweithiau peirianyddol. Mae'r rheilffordd wedi dod mor bwysig i rai teuluoedd fel eu bod wedi dewis byw yn yr ardal. Mae eraill yn helpu i reoli'r rheilffordd. Mae'r Cyfarwyddwyr, Ymddiredolwyr, a Swyddogion yn wirfoddolwyr – ac yn unol â'r ddealtwriaeth draddodiadol o'r gair nid ydynt yn cael eu talu ac maen nhw'n talu eu treuliau eu hunain. Mae'r rheilffordd wedi bod yn llwyddiannus yn denu pobl â gyrfaoedd nodedig mewn rheilffyrdd, rheoli, a'r proffesiynau i gyfrannu eu sgiliau yn y modd hwn. Mae'n rhoddwyr hael iawn – llawer ohonynt yn dewis aros yn ddienw – yn cymryd rhan fawr fel rhan o'n cymuned rheilffordd.

Mae gwirfoddoli yn ganolog i ethos y rheilffordd. Rydym wedi andewyddu ein ffocws ar hyn trwy adeiladu ar lwyddiant arweinyddion gwirfoddol ymroddedig ac yn anelu at recriwtio rhagor. Rydym wedi cydnabod y pwysigrwydd o hyfforddiant sgiliau cynyddol ar gyfer gwirfoddolwyr yn ogystal â staff. Mae hyn yn cael ei ddarparu trwy amrediad o gynlluniau – gan gynnwys trefniadau ag ysgolion a cholegau lleol, rhaglen Sgiliau ar gyfer y Dyfodol Cronfa Dreftadaeth y Lotri Genedlaethol, cynllun Gwobrau Dug Caeredin, a hyfforddiant prentisiaeth y Diwydiant Rheilffordd. Mae'n foddhaus fod cyfranogwyr sy'n wynebu her yn aml yn cyflawni mwy na'r hyn roedden nhw'n meddwl y gallent. Mae ehangu gwirfoddoli yn ogystal â'n gallu i hyfforddi pobl mewn sgiliau treftadaeth yn rhan bwysig o'n cynlluniau. Mae'r rheilffordd yn gallu bod yn gyfle am gymryd rhan yn ymarferol mewn ymgymeriad hanesyddol sy'n aros yn berthnasol iawn i gymuned heddiw.

Mae hon yn rheilffordd wedi'i rhedeg gan wirfoddolwyr a rhoddwyr. I'r gwirfoddolwyr, rhoddwyr a noddwyr hynny, mae'r rheilffordd wedi dod yn fodd y gallant wireddu breuddwydion drwyddi. Mae gwireddu breuddwydion yn eithriadol o heriol, ond mae Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri wedi profi ein bod yn mwynhau'r fath heriau ac yn gallu gwneud iddynt ddigwydd yn wirioneddol. Gyda'r Rheilffordd Adfywiol, mae'r rhoddwyr yn gallu disgwyl y dylai'r gwaith da mae eu rhoddion yn ei gwneud yn bosibl barhau am amser maith.


Mae set gyffredin o werthoedd craidd ac ymddygiadau cytunedig yn hanfodol os yw'r

rheilffordd yn mynd i weithredu'n gyson. Mae'r rhain yn ffurfio rhan o'r strategaeth hon. Nid yw cydymffurfio â'r rhain yn ddewisol. Maen nhw'n cael eu hategu gan gyfres o bolisïau ffurfiol. Mae'r ymddygiadau y mae'n rhaid i bawb sy'n cymryd rhan yn y rheilffordd lynu atynt yn cynnwys amrywiaeth, cynhwysiant, a dim goddef aflonyddu, bwlio na chamdriniaeth.

## 1.5 Amgylchedd

Mae amgylchedd yn cwmpasu'r ddau fater cyffredinol – â ffocws neilltuol ar ynni a defnydd carbon – a'r rheini sy'n benodol i'r dirwedd ac ecolog yr ardal.
Nid yw pryderon am faterion amgylcheddol yn ddim byd newydd. Hanner can mlynedd yn ôl, esboniodd y rheilffordd fod persawdio pobl i weld Eryri o drên yn hytrach na char yn lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol.

Mae hyn yn effeithlonrwydd allanol - mae'r rheilffordd yn sgorio o gymharu â ffurfiau eraill o fynediad at Eryri. Nod i'r Rheilffordd Adfywiol fydd ychwanegu at hyn trwy wella'n heffeithlonrwydd carbon ein hunain yn llawer cyflymach nac yr ydym wedi'i wneud yn y gorffennol.




Bydd hi'n broses cam wrth gam. Bydd yr enillion posibl cyflymaf a mwyaf mewn gorsafoedd a depos, felly y rhain fydd yn dod gyntaf. Mae prosiectau newydd yn rhoi'r cyfle gorau i ni wneud newidiadau. Mae Gweithfeydd Boston Lodge yn defnyddio mwy o ynni nac unrhyw le arall ar y rheilffordd. Mae gosodiad ffotofoltäig mawr (PV) ar do Sied Fawr y Cerbydau newydd yn Ionawr 2022 yn darparu'r potensial i ateb y rhan fwyaf o anghenion trydan y gweithfeydd. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle inni asesu sut i adeiladu cynhyrchiant a storio i mewn i brosiectau eraill. Mae dyluniad y Gweithdy Adeiladu ac adeiladau newydd eraill yn rhestr brosiectau isod yn gallu ymgorffori rhagor o PV os yw capasiti ychwanegol yn cael ei gyfiawnhau.

Mae gorsaf Beddgelert yn debygol o fod yn brosiect cynnar yn y Rheilffordd Adfywiol. Mae brîff y dyluniad yn cynnwys ystyried sut y gallwn gynhyrchu yn ogystal â storio pŵer ar y safle.

Bydd gwaith ar adeiladau sy'n bodoli bod amser yn ceisio gwella inswleiddio ac arbed gwres. Mae gwaith diweddar ar weithdy Dinas yn cynnig enghraifft o fuddion to wedi'i inswleiddio'n llawer gwell ac o system ailgylchu gwres. Bydd yr adeiladau a adferir o dan y cynllun Boston Lodge presennol yn defnyddio pympiau gwres ar gyfer gwresogi.

Mae adeiladau, a'r hyn sy'n digwydd y tu mewn iddynt, yn defnyddio llawer o ynni. Gweithredu trenau yw'r defnyddiwr sylweddol arall. Mae dros hanner y trenau rydym yn eu rhedeg yn drenau gweithfeydd. Mae'r rhain yn cael eu rhedeg ar ddiesel. Mae pobl yn hoffi ein fflyd ddiesel, ond hefyd yn derbyn bod angen iddi gael ei diweddaru. Mae'r bwrdd wedi penderfynu edrych ar opsiynau i ddisodli'r brif fflyd diesel â batri neu bŵer carbon isel arall fel yr amlinellir isod.

Rydym yn rheilffordd stêm. Mae *Stêm, Eryri a Golygfeydd* yn crynhoi'r hyn sy'n apelio at ymwelwyr. Mae stêm yn rhan hanfodol o'r apêl honno – i ymwelwyr a chefnogwyr fel ei gilydd. Synnwyr y fawd yw y bydd trên stêm wedi'i dynnu yn denu dwy waith mwy o deithwyr na thrên diesel. Mae'r rheilffordd yn enghraifft o'r rheilffordd gul. Mae dynodiad Treftadaeth y By yn cydnabod cyfraniad y fath reilffyrdd stêm. byddai dileu peiriannau stêm yn peryglu dyfofol y rheilffordd gyfan.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid inni ddefnyddio carbon i gynhyrchu stêm ond rydym yn cydnabod ei effaith ac yn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio mor effeithlon â phosibl. Mae symud at reilffordd wedi'i rhagarchebu wedi gwella llwythiadau ein trenau. Mae llai o lawer o seddi gwag. Mae'r ennil effeithlonrwydd hwn yn trosglwyddo i ddefnydd o danwydd. Yn 2021 syrthiodd tanwydd a ddefnyddiwyd fesul milltir teithiwr o 30% – cam mawr yn y cyfeiriad cywir – ac rydym yn disgwyl cynnal neu wella ar hyn.

Byddwn yn parhau i adolygu'r dewis o danwyddau stêm.

Mae angen pŵer ar arlwyo ar drenau hefyd. Mae hyn wedi dod o'r blaen o gynyrchyddion diesel. Mae batrïau yn cymryd lle'r cynyrchyddion hyn. Gwell ar gyfer carbon, llai swnllyd o lawer, ac yn ffordd i leihau ein hôl troed carbon heb niweidio'r hyn sy'n apelio at gefnogwyr ac ymwelwyr. Byddwn yn defnyddio ein PV ein hunain i wefru'r batrïau hyn.

Mae carbon yn fater cyffredinol. Mae’r rhan fwyaf o’r effeithiau ‘amgylcheddol’ eraill yn dod o dan y pennawd cyffredinol o nwyddau cyhoeddus. Mae’r rhain yn amrywiol ac yn anos i’w mesur. Mae’r rheilffordd yn darparu nwyddau trwy ei hasedau treftadaeth, trwy ddewis opsiynau cynaliadwy (er enghraifft sliperi plastig wedi’u hailgylchu yn hytrach na rhai wedi’u gwneud o bren caled Affricanaidd), trwy liniaru allyriadau, trwy fod yn rhan o dirweddau diwylliannol, a thrwy ddiogelu a gwella bioamrywiaeth yr ardaloedd mae’n rhedeg trwyddynt.

Ar y lefel benodol, mae’r rheilffordd yn rhedeg trwy ac yn ffurfio rhan o ardaloedd wedi’u diogelu – wedi’u diogelu gan Lywodraeth i adlewyrchu eu gwerth cynhenid yn nhermau diwylliannol yn ogystal ag ecolegol.

Mae un ar bymtheg o adeiladau neu strwythurau o dan berchnogaeth y rheilffordd yn cael eu rhestru, yn ogystal â Morglawdd y Cob a Phont Britannia rydym yn rhedeg ar eu traws. Mae’r rheilffordd yn rhedeg trwy bump Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Glaslyn, Coedydd Dyffryn Ffestiniog, Coed Nanmor, Coedydd Beddgelert a Cheunant Aberglaslyn, ac Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn) sawl un ohonynt hefyd wedi’u dynodi fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Mewn termau ecolegol, mae’r rheilffordd yn darparu coridorau hir ag ychydig iawn o darfu yn cysylltu ardaloedd o goetir neu gynefinoedd blaenoriaeth eraill. Rydym yn rheoli’r rhain yn sensitif. Mae llawer o’r rheilffordd o fewn tirwedd warchodedig Parc Cenedlaethol Eryri. Mewn termau diwylliannol, mae’r rheilffyrdd yn rhan o Safle Treftadaeth Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn ogystal â bod o fewn Tirweddau Diddordeb Hanesyddol Neilltuol Aberglaslyn a Blaenau Ffestiniog.

Mae’r rheilffordd hon a’i chyffiniau yn mwynhau lefel uchel iawn o warchodaeth gyhoeddus trwy unrhyw safonau. Mae’r warchodaeth gyhoeddus hon yn cydnabod sut mae ein rheilffyrdd, y tirweddau maen nhw’n eistedd ynddynt a’u hecoleg, oll yn nwyddau cyhoeddus gwerthfawr.

Mae cydnabyddiaeth ryngwladol wedi dod yn ffurf *Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru*. Mae cofebau’r rheilffordd yn rhan o’r Safle Treftadaeth Byd hwnnw. Ond mae’n mynd ymhellach o lawer na hynny. Cafodd rôl hanesyddol y rheilffordd mewn allforio’r cysyniad o reilffyrdd cul o Eryri ledled y byd ei amlygu i UNESCO fel mynegiant o werth cyffredinol neilltuol. Mae rôl bresennol y rheilffordd mewn arddangos y dirwedd honno i ymwelwyr gan ddefnyddio dyfeisiad allweddol gan ddiwydiant llechi Cymru (y rheilffordd gul) yn cael ei gweld yn bwysig iawn mewn galluogi’r byd i werthfawrogi’r Safle Treftadaeth Byd newydd.

Mae dyfarnu’r statws Safle Treftadaeth Byd yn ymddangos yn bwynt da iawn i fyfyrio ar beth mae’r Rheilffordd Gynaliadwyd wedi’i gyflawni, ac i symud ymlaen i mewn i weledigaeth newydd o sut mae’r rheilffordd yn gallu elwa fwyaf ar y gydnabyddiaeth hon.



Mae replica  o gerbyd brêc-cyfansawdd Ashbury o’r 1870au yn cael ei adeiladu ar gyfer fflyd treftadaeth Rheilffordd Eryri gan Waith Cerbydau Boston Lodge *(John Dobson)*

# Y Rheilffordd Adfywiol – Cynlluniau

Mae pobl yn ganolog i'r Rheilffordd Adfywiol. Mae datblygu ein pobl ac annog gwell rhyngweithio yn allweddol i adfywio. Bydd y Rheilffordd Adfywiol yn arwain at gyfres o gynlluniau pob un wedi'i gynllunio i wella'r berthynas rhwng y rheilffordd a phrif grwpiau gwahanol – nid y staff yn unig ond ymwelwyr a theithwyr, cymdogion, gwirfoddolwyr, rhoddwyr a'r rheini sydd ond am fod yn ffrindiau i'r rheilffordd.

Mae ymwelwyr yn cael mwy allan o'r rheilffordd os ydynt yn deall ei hanes, ei bresennol wedi'i redeg gan wirfoddolwyr a rhoddwyr, a'i gyfraniad at y gymuned. Bydd dehongli gwell yn ychwanegu gwerth at brofiadau'r ymwelwyr ac yn helpu pobl i werthfawrogi stori'r rheilffordd ei hun yn ogystal â'r rhanbarth mae'n ei gwasanaethu. Cynorthwyodd cam darparu'r NLHF Boston Lodge, bydd prosiect Dehongli a Datblygu yn rhoi adnoddau am ddehongli gwell trwy'r rheilffordd gyfan, ac mae hyn yn dechrau yn 2022. Mae'r prosiect yn ymwneud cymaint â dehongli, ac â datblygu gwirfoddoli ac ymestyn, ag y mae am adfer yn Boston Lodge. Mae'r teitl llawn yn llond ceg felly cyfeirir at y prosiect fel prosiect Boston Lodge er mwyn symlrwydd.

Fel rheilffordd wedi'i rhedeg gan wirfoddolwyr a rhoddwyr, mae'n dyfodol yn dibynnu ar ysbrydoli pobl sy'n dymuno gwirfoddoli i weithio ar, ac i helpu rhedeg y rheilffordd yn y dyfodol. Mae llawer o'n gwirfoddolwyr yn cyrraedd â sgiliau uchel, ond gallem wneud mwy i ddarparu cyfleusterau a hyfforddiant i adeiladu'r boblogaeth hon. Mae cynlluniau ar gyfer prosiect Boston Lodge yn cynnwys canolfan hyfforddiant – gan agor cyfleoedd newydd ar gyfer gwirfoddolwyr yn ogystal ag ymestyn lleol. Mae'r cynlluniau ar gyfer Gweithfeydd Dinas a Boston Lodge yn darparu mannau dynodedig ar gyfer prosiectau gwirfoddolwyr. Bydd y rheilffordd yn gweithio â'r Cymdeithasau i annog rhagor o wirfoddolwyr, ac yn enwedig rhagor o wirfoddolwyr ifanc, ac i wella ymestyn i mewn i'r gymuned leol. Mae prosiect Boston Lodge yn cyllido arweinyddion ar gyfer datblygu gwirfoddolwyr yn ogystal ag ymestyn. Megis yn achos dehongli gwell, dylai'r canlyniadau cyntaf fod yn amlwg yn 2022.

Mae gan roddwyr posibl ddewis eang iawn o achosion da i'w cefnogi. Mae'n henw da wedi'i adeiladu ar gyflawni'n wirioneddol ar brosiectau sy'n gyffrous, teilwng, ac yn werth da iawn am arian. Rydym yn gwybod bod rhaid i bob rhodd gael ei hennill. Rydym yn ddiolchgar iawn am y lefel fawr barhaus o gefnogaeth trwy'r blynyddoedd Rheilffordd Gynaliadwy. Rydym yn gobeithio y bydd y cynlluniau a'r prosiectau sy'n cael eu disgrifio yma yn parhau i annog rhoddion ac ewyllysiau.

Mae rhoddwyr yn gallu rhoi i'r rheilffordd trwy'r Ymddiriedolaeth neu'r naill Gymdeithas neu'r llall. pa lwybr bynnag y mae rhoddwr yn ei ddewis, mae ganddynt hawl i ddisgwyl yr un safonau o gywirdeb ac effeithlonrwydd. Mae pob un o'r tair yn elusennau. Mae'n holl Ymddiriedolwyr yn deall nad yw'r arian a dderbynnir gan roddwyr ac ewyllysiau yn arian iddyn nhw a bod ganddynt gyfrifoldeb cyfreithiol yn ogystal â moesol i sicrhau bod gweithredu ar ddymuniadau rhoddwyr mor effeithiol ac mor gyflym a phosibl. Bydd amrediad o apeliadau yn cwmpasu pob maint o brosiect a lefelau cyfrannu. Mae'n prosesau codi arian a dyrannu arian yn cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl.

Mae aelodaeth cymdeithas yn apelio at bobl sydd am aros mewn cysylltiad â'u rheilffordd. Mae'r prif fuddion wedi bod yn gylchgronnau chwarterol a breintiau teithio aelodau. Mae'r ddau yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan lawer o gefnogwyr, ond gallem ddatblygu ffyrdd eraill o apelio at y rheini a hoffai fod yn ffrindiau i Reilffyrdd Ffestiniog ac Eryri yn yr oes ddigidol. Byddwn yn gweithio â'r ddwy Gymdeithas i ailystyried sut mae aelodaeth orau o'u cymdeithas yn gallu meithrin ymdeimlad hyd yn oed yn fwy o berthyn.


Mewn egwyddor mae strwythur y rheilffordd yn syml. Mae gan yr Ymddiriedolaeth – elusen – ddiddordeb rheoliadol yng Nghwmni'r rheilffordd ac mae'n gweithredu fel ei pherchennog. Mae'r Cwmni yn rhedeg y rheilffordd ac yn berchen ar ei hasedau. Mae'r Cymdeithasau yn ei gefnogi. Ni fydd y strwythur hwn yn newid. Bydd trefniadau newydd yn helpu i amlinellu sut fydd y weledigaeth hon yn cael ei gweithredu ar y cyd.

Mae llywodraethiant y rheilffordd yn gorffwys ar ddeddfwriaeth cyn oes Fictoria yn mynd yn ôl i Ddeddf Rheilffordd Ffestiniog 1832. Rydym yn gwerthfawrogi'r hanes hir hwn ond yn cydnabod bod angen mynd i'r afael weithiau â chysyniadau modern. Rydym am fodloni'r fath anghenion trwy'r newidiadau lleiaf i'n strwythurau ffurfiol. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu deddfu trwy Orchymyn Trafnidiaeth a Gweithfeydd.

Mae'r arwydd cryfaf ynghylch pwy a beth ydym yn dod o sut rydym yn ymddwyn– 'wrth eich gweithredoedd y cewch eich hadnabod'. Mae'r rheilffordd yn gofyn llawer o'i phobl ac mae gan y bobl hynny bob hawl i wybod pa fath o sefydliad mewn nhw'n ymrwymo iddo.

Mae Gwerthoedd ac Ymddygiadau yn enghreifftiau o ffordd Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri o wneud pethau. Dilynodd y fersiwn wreiddiol lawer o ymgynghori ac mae'r cynnwys hwn yn awr wedi cael ei ehangu. I bawb sy'n dymuno cymryd rhan yn uniongyrchol yn y rheilffordd, mae'r Gwerthoedd a'r Ymddygiadau hyn yn rhoi mewnwelediad i sut rydym yn rheoli perthnasoedd. Maen nhw'n cael eu hamlinellu fel Rhan Dau o'r ddogfen weledigaeth hon.

## Datblygiad Safle Boston Lodge yn yr unfed ganrif ar hugain




**CYNLLUN GWAITH BOSTON LODGE**

| | |
|---|---|
| A | Ffordd Fynedfa i'r Gwaith |
| B | Maes Parcio'r Gwaith |
| C | Adeiladau Treftadaeth Iard Uchaf |
| D | Codi Gweithdai |
| E | Sied Locomotifau Bach Newydd |
| F | Sied Hen Gerbydau |
| G | Sied Cerbydau Treftadaeth |
| H | Sied Cerbydau Mawr Newydd |
| I | Gwaith Cerbydau |
| J | Sied Rhedeg Locomotifau Rheilffordd Eryri |
| K | Estyniad Arfaethedig Gwaith Cerbydau |

# Y Rheilffordd Adfywiol – prosiectau

Mae'r arian ar gyfer datblygu yn dod yn bennaf trwy ewyllysiau, rhoddion, a nawdd, a'r grantiau mae'r rhoddion hynny'n eu rhyddhau pan gânt eu defnyddio fel arian cyfatebol. Felly, mae'n hanfodol fod ein dyheadau a'n rhaglen i'r dyfodol y ddigon cyffrous i ddenu rhoddwyr.

### *Boston Lodge*

Mae adfer craidd hanesyddol Boston Lodge yn rhan fawr o'r prosiect wedi'i gefnogi gan NLHF. Mae hyn yn cynnwys £3m ar gyfer adfer adeiladau, yn cynnwys creu hyfforddiant, cyfleuster bwyd, a gofod swyddfa, a sied locomotifau ar gyfer peiriannau llai Ffestinog. Bydd hyn yn ein cadw'n brysur am sawl blwyddyn. Cyn gynted â bod hyn yn cael ei wneud, bydd sylw'n troi at adfer y siop adeiladu 'newydd' a adeiladwyd yn 1900, gan gymryd lle'r siop adeiladu o'r 1970au sy'n eistedd y tu ôl iddi ag adeilad mwy wedi'i godi i safonau modern gorau, ac adeiladu'r siediau rhedeg locomotifau Ffestiniog a Garratt newydd. Byddai hyn yn cwblhau'r prosiect Boston Lodge fel y'i gwelir ar hyn o bryd. Beth fydd hyn yn ei gostio? Mae'n debygol o fod yn £2m i £3m arall ar ôl i'r prosiect dan nawdd y NLHF gael ei gwblhau (c£3m).

### *Gorsfaoedd Canolraddol*

Mae Beddgelert a Than y Bwlch wedi dod yn gyrchfannau pwysicach o lawer ers Covid ac mae hyn yn gwella'r achos dros fuddsoddi yn y gorsafoedd hyn yn fawr. Gall gorsaf newydd ym Meddgelert fod y prosiect cyntaf i gael ei gychwyn o'r newydd o dan y Rheilffordd Adfywiol. Bydd galluogi gwaith i wella draenio yn Nhan y Bwlch yn cael ei ddilyn gan adfer Tŷ'r Orsaf. Bydd gwaith ar orsafoedd canolraddol eraill yn rhan o'r rhaglen i adfer ein hadeiladau treftadaeth ac yn gysylltiedig â chynlluniau i redeg trenau treftadaeth ar adrannau cymharol fyr o'r lein.

### *Cerbydau (modern)*

Roedd gennym syniad clir o'r nifer o seddi oedd eu hangen arnom yn yr oes cyn Covid – mae'n llai clir yn awr gan nad yw'r model busnes newydd yn seiliedig ar ragarchebu wedi ymsefydlu eto. Mae gwella'r amgylchedd lle mae'n teithwyr yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn aros yn brif flaenoriaeth ac mae'r rhaglen gerbydau modern yn ffordd effeithiol iawn o wella safonau lle mae'n cyfrif. Bydd y pwyslais yn debygol o newid.




Argraff pensaer o Adeilad Gorsaf newydd arfaethedig Beddgelert *(Chambers Conservation Ltd)*

Er enghraifft, mae arwyddion yn awgrymu marchnad gynyddol ar gyfer ceir Arsylwi Pullman ond angen llai am Geir Gwasanaeth llawn. Mae meddu ar gerbydau modern heb eu defnyddio yn wastraff. Gall rhai cerbydau modern presennol gael eu haddasu i weddu ag anghenion newydd, bydd eraill yn cael eu hadeiladu o'r newydd. Ar yr adeg hon bydd rhaid i unrhyw raglen fod yn amodol. byddai un cerbyd newydd neu wedi'i ailadeiladu y flwyddyn am y 10 mlynedd nesaf yn rhagolwg resymol.

### *Cerbydau a Threnau Treftadaeth.*

Daeth cerbydau treftadaeth i fri gan ddarparu lle diogel ar wahân oedd yn rhoi sicrwydd yn ystod Covid. Yn y dyfodol bydd eu hapêl yn gorffwys ar ein gallu i gynnig trenau treftadaeth fel profiad yn ei rinwedd ei hun. Mae trenau pellter byrrach yn rhan o'r cynnig, ond gallent yn yr un modd gael eu rhedeg â cherbydau mwy modern. Mae angen trin gofalus ar gerbydau treftadaeth er mwyn cadw'u deunydd hanesyddol, felly bydd eu defnydd yn cael ei fonitro'n ofalus. Mae gan Reilffordd Ffestiniog gasgliad trawiadol o gyflawn o gerbydau treftadaeth. Bydd trenau treftadaeth NWNG / WHR yn dod yn bosibl wrth gwblhau'r Brêc Cyfansawdd Ashbury.

### *Adeiladau / Cofebau Treftadaeth*

Gan gyfadaeilad Boston Lodge mae'r crynodiad mwyaf o adeiladau treftadaeth ar y rheilffordd a bydd y rhain yn cael eu hadfer i raddau helaeth fel rhan o brosiect Boston Lodge. Bydd Gorsafoedd Tan y Bwlch, Minffordd, a Phenrhyn yn dilyn wrth i andoddau ganiatáu. Mae Sied Nwyddau Dinas yn enghraifft o adeilad sy'n cael ei wylio'n ofalus am arwyddion o ddirywio.

Mae llawer o'r adeiladau treftadaeth eraill o dan berchnogaeth y rheilffordd wedi cael eu moderneiddio. Bydd y cwmpas ar gyfer adfer cydymdeimladol yn cael ei ystyried wrth iddynt ddod yn barod am gynnal a chadw trwm. Yn aml, mae gwaith ar strwythur treftadaeth yn cael ei alluogi gan rodd hael. Mae hyn yn cyflawni ei bwrpas craidd o achub y strwythur, ond mewn rhai achosion mae adeiladau wedi gorfod aros cryn amser cyn canfod pwrpas newydd. Byddwn yn ceisio lleihau'r bwlch amser hwn.

Mae ceiau cerrig, waliau cerrig sych a gwifrau uwch eu pennau, gatiau haearn gyr arbennig (fel y rheini ar Reilffordd Gul Gogledd Cymru) a llawer o nodweddion eraill yn cyfrannu at gymeriad y rheilffordd. Byddwn yn cadw ac yn adfer y fath nodweddion pryd bynnag y bo'n bosibl. Yn fach yn unigol, maen nhw'n cael effaith fawr gyda'i gilydd.

### *Prif Orsafoedd*

Harbwr Porthmadog yw prif orsaf y rheilffordd. Mae'n gwasanaethu'r ddwy reilffordd ac mae'n borth i'r rheilffordd i dros hanner ein teithwyr. Cafodd y cyfleusterau gweithredu eu trawsffurfio yn 2014. Mae angen uwchraddio ar gyfleusterau masnachol hefyd. Cyn gynted ag y bydd Prosiect Boston Lodge wedi'i gwblhau bydd llawer o'r swyddogaethau gweithredu yn symud yno, gan ddarparu lle i weithio ar yr Harbwr. Mae adeilad yr orsaf mewn tair rhan. Mae Adeilad yr Orsaf a'r Sied Nwyddau (*Spooner's* yn awr) yn adeiladau hanesyddol o'r 1880au, ac maen nhw wedi'u cysylltu â'i gilydd gan adeilad cyswllt o'r 1970au. Bydd y ddwy ran hanesyddol yn cael eu hail-doi a'u hadfer. Mae'r opsiynau ar gyfer yr adeilad cyswllt yn amrywio o uwchraddio cymedrol i amnewid llwyr. Bydd y gwaith o ganlyniad yn debygol o gael ei amserlennu ar gyfer y 2020au hwyr neu'n gynnar yn y 2030au.

Mae Gorsaf Blaenau yn gyfnewidfa â Thrafnidiaeth Cymru / Network Rail ac mae'n ffurfio rhan (fach) o gynllun uwchraddio'r orsaf ar gyfer Cymru gyfan. Roedd cynnydd da yn cael ei wneud cyn i Covid arwain at y rhaglen gyfan yn cael ei hadolygu. Byddwn yn parhau i weithio â Thrafnidiaeth Cymru a Network Rail i adediladu cyfnewidfa well yma.

Yng Nghaernarfon rydym yn anelu at ddarparu mannau cyswllt â gorchuddion i fynd â theithwyr o'r orsaf newydd gampus i'r platffom a'r trên. Mae'r gwrthgyferbyniad ar hyn o bryd yn weddol eithafol.



Ochr fewnol gain Car Arsylwi Pulman Rheilffordd Ffestiniog Rhif 150 yn dangos y lefel uchel o grefftwaith a gyflawnwyd gan Waith Cerbydau Boston Lodge (*Andrew Thomas)*


# Dinas, Iard y De, â Sied Redeg Locomotifau Newydd a Gofod Gweithdy

**DINAS IARD Y GOGLEDD**


- A Sied Gerbydau Bresennol
- B Storfa
- C Storfa
- D Sied Gerbydau Newydd
- E Hen Sied Nwyddau
- F Adeilad Gorsaf Dinas

**DINAS IARD Y DE**

- A Gweithdy Locomotifau Dinas
- B Man Gwasanaethu Locomotifau




# Dinas Iard y Gogledd â Sied Gerbydau Newydd



### *Dinas*

Mae'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli trenau rhwng Dinas a Chaernarfon yn arwain at lawer o siyntio. Mae hyn yn aneffeithlon ac yn arwain at ddyddiau dianghenraid o hir i griwiau. Mae cynlluniau wedi'u datblygu'n dda ar gyfer sied newydd i redeg locomotifau yn Iard y De, yn cynnwys lle ar gyfer storio peiriannau Seilwaith, gweithdy gwirfoddolwyr, a chyfleusterau bwydo. Bydd y siopau peiriannau ac adeiladu yn meddiannu'r holl adeilad presennol. Bydd sied gerbydau newydd â mynediad uniongyrchol i ac o Gaernarfon ac i'r sied locomotifau yn cael ei hadeiladu yn Iard y Gogledd. Bydd yr adeiladau newydd hyn yn cynnwys cyfleusterau staff, ac yn elwa o wersi a ddysgwyd â'r sied gerbydau fawr a'r sied locomotifau fach yn Boston Lodge. Mae'r holl opsiynau yn cadw ardal agored fawr yn Iard y Gogledd fel ein depo seilwaith ar ben go

### *Locomotifau Trên Gweithfeydd*

Mae hanner ein milltiroedd trên ar drenau gwaith. Mae hyn yn cynnig cyfle gwych i leihau allyriadau trwy gyfnewid peiriannau tynnu diesel traddodiadol â fflyd newydd o locomotifau batri / hydrogen neu locomotifau ynni effeithlon eraill. Mae'r rhain yn debygol o gael eu hadeiladu er mwyn iddynt allu gweithio'n lluosog ar gyfer defnydd teithwyr. Bydd yr astudiaeth fawr gyntaf yn cael ei chomisiynu yn 2022. Mae costau'n anodd i'w rhagweld ar hyn o bryd – mae lwfans o £3m yn ymddangos yn briodol.

### *Locomotifau Stêm*

Mae locomotifau stêm yn ganolog i'r rheilffordd ond mae treuliant carbon yn bryder ac mae cyflenwadau o lo addas yn dod yn fwyfwy anodd. Bydd llwythiadau trên gwell o ganlyniad i ragarchebu yn gwneud defnydd mwy effeithlon o'r tanwydd a losgir, a bydd y fflyd locomotifau stêm yn cael ei haddasu i losgi tanwydd gwyrddach fel a phan ddaw'r fath danwyddau ar gael.

Mae trenau Eryri yn mynnu locomotifau pwerus oherwydd y dringfeydd. Rydym wedi gweithio'n galed i ddarparu digon wrth gefn – ac yn anelu at fod â boeler Garratt sbâr ar gael. Mae NG15 yn cael ei adfer a bydd yn ddewis amgen diddorol i'r pedwar NGG16 Garratt.

Mae gan locomotifau bach atyniad neilltuol. Mae'r rheini a ddefnyddiwyd yn hanesyddol yn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu'n dda yn ein fflyd, ond mae archwaeth yn parhau am andewyddu ac am adeiladu atgynyrchiadau. Po fwyaf y gallwn wneud llwyddiant o drenau treftadaeth fel profiad gwahanol y mwyaf y bydd gennym rôl ar gyfer locomotifau bach hanesyddol. Rydym yn awyddus i'n holl locomotifau gael eu cadw mewn cyflwr da a'u lletya'n briodol. Mae'r cyfleusterau arfaethedig yn Ninas yn rhagweld lletya locomotifau bach yno yn ogystal ag yn Boston Lodge. Gall fod angen inni ystyried cyfleusterau storio mewn lleoliadau eraill yn ogystal.

### *Signalu*

Mae ETS micro â signalau cychwyn cydgloëdig yn system sy'n arloesol ac yn ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd trwy flynyddoedd o weithredu diogel ar reilffyrdd trac sengl. Mae angen i'r system gael ei gwella i ddarparu ar gyfer offerynau canolraddol ar ar gyfer seidins. Bydd gosod yn cwmpasu gweddill Rheilffordd Eryri a gall y system gael ei hestyn i Reilffordd Ffestiniog wrth i adnewyddu agosáu. Mae cael system sengl ei hun yn gwella diogelwch trwy leihau'r cwmpas ar gyfer dryswch, ac mae hyn hyd yn oed yn bwysicach ar reilffordd gwirfoddolwyr.




I gyd-fynd â'r NGG16 Garratts, mae NG15 'Kalahari' 2-8-2 yn cael ei adfer i'w ddefnyddio ar Reilffordd Eryri. *(Stuart Black)*

### *Cyfarpar Seilwaith*

Yn ystod y cyfnod hwn bydd angen i'r rheilffordd fesur ei hanghenion i'r dyfodol ar gyfer caledu a chyfarpar cynnal trac arall. Mae'r gost yn debygol o fod yn uchel.

### *Trac – Ffurfiad a Ffordd Barhaol*

Bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth gydag o leiaf dwy filltir o drac yn disgwyl cael ei adnewyddu dros gyfnod y strategaeth hon. Ar hyn o bryd mae'r gyfradd adnewyddu yn adlewyrchu'r ffaith fod trac Rheilffordd Eryri yn dal yn gymharol newydd. Bydd angen i andewyddiadau gynyddu wrth iddi ddod yn bryd am adnewyddiadau Rheilffordd Eryri ond bydd y prif gynnydd yn dod ar ôl cyfnod y strategaeth. Mae pontydd a strwythurau eraill yn cael eu harchwilio'n rheolaidd, a bydd y rheini sy'n gofyn am sylw yn cael eu cyllido.

### *Prosiectau arbed Ynni*

Y gosodiad PV (50KW) ar do sied cerbydau mawr Boston Lodge yw'r cyntaf o'r hyn fydd yn gyfres o brosiectau i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau ein hôl troed carbon. Gallai'r rhain ddefnyddio amrediad o dechnolegau.
Mae'r rheilffordd yn anelu at leihau ei hôl troed carbon lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'n sensitif i fioamrywiaeth yr ardal mae'n rhedeg drwyddi – wedi'i amlygu gan eu dynodiad fel ardaloedd gwarchodedig – bydd prosiectau perthnasol yn ymgorffori anghenion bioamrywiaeth o fewn y broses ddylunio.

### *Gofalu am ein cofnodion*

Mae'r angen am gartref cywir i'r cofnodion o'r cyfnod modern wedi dod yn ddwys – mae angen y rhain i ffurfio penderfyniadau ar hyn o bryd yn ogystal â darparu archif y dyfodol. Byddwn yn anelu at gomisiynu adeilad addas cyn gynted â phosibl.

### *Amcan cyntaf o beth allai hyn gostio*

Mae amcangyfrif y fath raglen yn anodd, oherwydd bod y cynigion hyn ar gam cynnar eu datblygu yn ogystal ag oherwydd bod chwyddiant yn gallu gwneud ffigurau penodol yn ddarfodedig yn gyflym. Byddai'r rhaglen uchod yn costio £25m - £30m ar brisiau 2022. Mae pa mor gyflym y gall y rhaglen hon gael ei darparu yn dibynnu ar nifer o ffactorau – gan gynnwys yr economi a pha mor lwyddiannus rydym mewn denu ewyllysiau, rhoddion, a grantiau. Mae'r cyfeiriad yn glir. Mae'n hymagwedd at gynllunio yn golygu bod gan bob prosiect mawr ei gynllun ei hun, felly byddant ond yn cael eu rhoi ar waith pan fydd y cyllid ar gael. Mae graddfeydd amser yn gallu bod yn hyblyg. Bydd y rhaglen hon yn debygol o gymryd deng mlynedd neu ychydig yn fwy.

# Y Rheilffordd Adfywiol – Casgliadau

Mae hyn yn dod â'r rhan gyntaf o'r papur gweledigaeth hwn i ben. Mae'n esbonio beth mae'r 'Rheilffordd Adfywiol' yn anelu at wneud dros y ddeng mlynedd nesaf, a'r cynlluniau a'r prosiectau fydd yn helpu i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae pa mor dda fydd y weledigaeth hon yn gweithio mewn gwirionedd yn dibynnu ar bobl a *sut* y byddant yn ymddwyn. Fel menter ar y cyd, mae'r rheilffordd yn dibynnu ar lawer o bobl yn dymuno bod yn rhan ohoni. Mae sut mae pobl yn ymddwyn yn cael cymaint o effaith ar fwynhad a lles pobl eraill â *beth* rydym yn bwriadu ei wneud. Rydym yn falch o'r bobl sy'n rhan o'n rheilffordd ac yn eu gwerthfawrogi. Ein bwriad yw gwella llesiant a lles. Mae gan hyfforddiant, mentora, a datblygiad rôl bwysig i'w chwarae. Ond bydd llwyddiant yn dibynnu'n hanfodol ar bawb sy'n gysylltiedig â'r rheilffordd yn gwneud yr ymdrech i ddeall yr hyn sy'n cael ei ddisgwyl oddi wrthynt, mabwysiadau'r gwerthoedd sy'n mynegi'r ddealltwriaeth hon, ac osgoi ymddygiadau negyddol yn weithredol. Felly, nid yw'r gwerthoedd ac ymddygiadau hyn yn ddewisol. Maen nhw'n rhan o'r broses reoli, wedi'u cefnogi gan bolisïau ffurfiol, a bydd ymlyniad yn rhan o adolygiadau blynyddol.

Mae Gwerthoedd ac Ymddygiadau yn cael eu hamlinellu orau mewn ffurf tablaidd ac yn dilyn yr adran hon.

Yn olaf, mae gan ddarllenwyr a chefnogwyr bob hawl i ofyn pa grediniaeth maen nhw'n gallu'i rhoi ar ddatganiad gweledigaeth neu strategaeth a gyhoeddir bob deng mlynedd. Felly, mae Rhan Tri yn ôl-syllol – mae'n adrodd ar ganylyniadau'n strategaeth flaenorol – y Rheilffordd Gynaliadwy. Y canlyniadau? Sefydlogrwydd ariannol wedi'i gyflawni oherwydd y cafodd dyled tymor hir ei ad-dalu. Mae cyfraniad y rheilffordd at economi ein cymuned – Gwynedd – yn cael ei gydnabod yn eang. Mae cael ein cynnwys yn Safle Treftadaeth Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn nodi ein cyfraniad at amgylchedd a threftadaeth. Mae rhestr sylweddol o brosiectau mawr wedi cael eu cwblhau. Rydym wedi buddsoddi mwy na'r hyn a ragwelwyd un flynedd ar ddeg yn ôl ac wedi gwneud hynny gan ddefnyddio arian a godwyd i'r pwrpas heb ofyn am fenthyg.
Rwy'n gobeithio bod y dystiolaeth hon fod y rheilffordd wedi cyflawni dros yr un flynedd ar ddeg diwethaf yn cynnig hyder y gall barhau i wneud hynny. Dros lawer o flynyddoedd mae'r rheilffordd wedi dangos ei bod yn gallu ailddyfeisio ei hun i addasu i fyd sy'n newid heb golli ei hanfod. Bydd y Rheilffordd Adfywiol nid yn unig yn diogelu'r rheilffordd arbennig iawn hon ond yn gwneud hynny mewn ffordd a ddylai ei gwneud yn well hyd yn oed i genedlaethau'r dyfodol. Rwy'n gobeithio bod hyn yn rhywbeth y byddwch chi'n dymuno'i gefnogi – trwy wneud hynny byddwch chi'n rhan o rywbeth go arbennig.

Dr John Prideaux, C B E
Cadeirydd, Ymddiriedolaeth Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri
Cadeirydd, Cwmni Rheilffordd Ffestiniog Hydref 2022



Daeth Troli Archwilio Wickham y Tîm Ffordd Parhaol yn gerbyd cyntaf Rheilffordd Ffestiniog i gael ei bweru gan fatri trydan yn Awst 2022.
*(Roger Dimmick)*

# Rhan Dau – Y Gwerthoedd ac Ymddygiadau

Rydym yn adnabyddus am ein rheilffyrdd rhyfeddol, ond y cronfeydd o wybodaeth ac ymroddiad ymhlith ein staff yn daledig yn ogystal ag yn wirfoddolwyr sy'n gwneud Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri yn wirioneddol neilltuol.

Rydym yn teimlo, pan fydd pobl yn ymuno â Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri, bod angen i ni fod mewn sefyllfa i ateb y prif gwestiynau canlynol yn gyflym.

- Pa fath o sefydliad yw hwn?
- Beth sy'n bwysig i'r sefydliad?

Mae pawb ohonom wedi ceisio ateb y cwestiynau hyn o dro i dro. Mae'r ddogfen ganlynol yn anelu at gipio beth sy'n bwysig i ni ledled ein sefydliad, ac i fapio sut rydym yn disgwyl i bobl ymddwyn. Mae'r panel canolog ym mhob achos yn dangos yr hyn rydym yn ystyried i fod yn ymddygiad effeithiol, ac mae enghreifftiau darluniadol o ormod neu rhy ychydig o bwyslais ar lwybrau gweithredu neilltuol.

Mae'r gwerthoedd hyn yn dod nid yn unig o Fwrdd y Cwmni neu Ymddiriedolwyr Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri ond oddi wrth bawb yn ein sefydliad. Rydym wedi bod yn casglu barn ac awgrymiadau am fwy na blwyddyn, o drawsdoriad eang iawn o'n pobl, yn wirfoddolwyr yn ogystal ag yn staff taledig, yn hir eu gwasanaeth neu'n newydd-ddyfodiaid. Mae'r rhain yn awr yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen hon i bawb eu gweld.

Mae pobl yn crybwyll yn aml Ffordd Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri o wneud pethau. Mae'r ddogfen hon yn anelu at gipio'r 'ffordd' honno. Rydym yn gobeithio ei bod yn ddefnyddiol, yn credu ei bod yn bwysig i'n llwyddiant yn y dyfodol, ac yn disgwyl iddi gael ei defnyddio fel canllaw clir ynghylch sut y dylai pawb ymddwyn yn eu gwaith i Reilffyrdd Ffestiniog ac Eryri.

RHEILFFYRDD FFESTINIOG AC ERYRI
FFESTINIOG & WELSH HIGHLAND RAILWAYS

### DIOGELWCH

| RHY YCHYDIG | EIN FFORDD | GORMOD |
|---|---|---|
| • Safonau'n llithro<br>• Llwybrau tarw'n yn cael eu cymryd<br>• Ymarferion ddim yn cael eu cadw'n gyfredol<br>• Staff ac aseswyr wedi'u hyfforddi'n annigonol<br>• Materion yn cael eu hmcangyfrif yn rhy isel<br>• Opsiynau yn cael eu dewis am fod yn rhad yn hytrach nac effeithiolrwydd | • Rydym yn asesu risgiau'n drwyadl<br>• Rydym yn blaenoriaethu ein gweithredoedd<br>• Rydym yn dysgu o gamgymeriadau pobl eraill<br>• Rydym yn derbyn cyngor a mewnbwn allanol i osgoi problemau<br>• Rydym yn cyfathrebu'n agored<br>• Rydym yn ymdrechu i wneud pethau mewn ffyrdd diogelach bob amser<br>• Rydym yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant iechyd a diogelwch perthnasol | • Mae materion diogelwch yn cael eu gorddatgan ac yn atal cynnydd<br>• Mae blaenoriaethau'n cael eu sgiwio – mae meini prawf 'diogelwch' yn cael eu defnyddio i gyflawni nodau sydd ddim yn ymwneud â diogelwch<br>• System ddogfennau rheoli diogelwch yn drwm, ar draul diogelwch 'llawr gwaith' gwirioneddol |

RHEILFFYRDD FFESTINIOG AC ERYRI
FFESTINIOG & WELSH HIGHLAND RAILWAYS

### CYFRIFOLDEB AR Y CYD

| RHY YCHYDIG | EIN FFORDD | GORMOD |
|---|---|---|
| • Prinder cymorth i gydweithwyr<br>• Adrannau'n gweithio yn erbyn ei gilydd<br>• Prosiectau wedi'u hanner gorffen<br>• Prosiectau heb eu hawdurdodi<br>• Diwylliant beio<br>• Peidio â chefnogi polisi'r cwmni<br>• Peidio â gwrando ar farn y bobl sy'n cymryd rhan<br>• Anwybyddu polisïau'r cwmni<br>• Cyflwyno barn bersonol fel un y cwmni | • Rhyddid llefaru yn fewnol<br>• Ymdrinnir â phroblemau yn fewnol<br>• Undod neges yn allanol<br>• Sefyll gyda'n gilydd mewn argyfwng<br>• Cyfrifoldeb ar y cyd am benderfyniadau a wneir a gweithredoedd a gymerir<br>• Ymchwil trwyadl<br>• Cydweithio rhyngadrannol<br>• Parchu pob barn wrth greu polisïau<br>• Defnyddio polisi'r cwmni mewn penderfyniadau, ymarferion gwaith a chyfathrebiadau allanol | • Microreoli<br>• Mae'n atal blaengaredd<br>• Materion pwysig ddim yn cael eu cwestiynu<br>• Gormod o bobl yn ymwneud â phroblemau mewnol<br>• Barn y bobl yn cael ei chymryd ond yn cael ei hanwybyddu |

RHEILFFYRDD FFESTINIOG AC ERYRI
FFESTINIOG & WELSH HIGHLAND RAILWAYS

### EIN POBL

| RHY YCHYDIG | EIN FFORDD | GORMOD |
|---|---|---|
| • Nid yw pobl yn cael cydnabyddiaeth addas am gyfraniad arwyddocaol<br>• Nid oes hyblygrwydd gweithredol, dim apêl i wirfoddolwyr, a felly dim hwyl<br>• Nid yw gwirfoddolwyr yn gallu cyfrannu'n ystyrlon at brosiectau<br>• Mae prosiectau 'wedi'u diogelu' ac nid yw'r unigolion sy'n cymryd rhan yn trosglwyddo'u profiad i'r genhedlaeth nesaf o wirfoddolwyr<br>• Cyflogeion newydd a gwirfoddolwyr yn cael eu gadael i ofalu am eu hunain | • Rydym yn gwerthfawrogi, cydnabod a gwobrwyo'n staff teryngar, yn wirfoddolwyr a chyflogeion gyda'i gilydd, am waith wedi'i wneud yn dda<br>• Rydym yn gwerthawrogi ac yn annog gwaith a gyflawnir gan grwpiau<br>• Rydym yn bobl rheilffordd brwdfrydig, nid selogion rheilffyrdd, ac yn ennill bodlonrwydd o waith wedi'i wneud yn dda<br>• Mae gennym brosiectau hyblyg sy'n cydnabod mewnbwn a setiau sgiliau gwirfoddolwyr a chyflogeion, ac yn darparu hyfforddiant priodol<br>• Rydym yn rhannu gwaith, profiad, a syniadau i danio brwdfrydedd pobl iau<br>• Rydym yn cynorthwyo pob unigolyn | • Mae gofynion gwirfoddolwyr yn gorbwyso gwerth eu mewnbwn i'r sefydliad<br>• Mae prosiectau grŵp yn tynnu sylw oddi wrth bwrpas craidd y cwmni<br>• Mae gwaith sy'n cael ei wneud gan wirfoddolwyr yn cael ei adael heb ei gwblhau ac mae momentwm yn cael ei golli<br>• Ni chaniateir annibyniaeth i'r genhedlaeth iau ar ôl hyfforddiant |

RHEILFFYRDD FFESTINIOG AC ERYRI
FFESTINIOG & WELSH HIGHLAND RAILWAYS

## ARWEINYDDIAETH

### RHYYCHYDIG

- Nid yw cyfraniadau is-weithwyr yn cael eu cydnabod
- Mae arweinyddion yn cael eu hystyried yn 'bell'
- Nid yw canlyniadau yn unol â blaenoriaethau Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri
- Mae canlyniadau'n anghyson
- Mae anghenion tîm yn cael eu hanwybyddu
- Mae cyfathrebu â staff yn wael
- Nid yw setiau sgiliau staff yn cael eu defnyddio i'w potensial llawn
- Mae amharodrwydd i foderneiddio neu arloesi
- Derbyn perfformiad gwael

### EIN FFORDD

- Rydym yn gosod amcanion clir
- Rydym yn cymell, annog, creu brwdfrydedd ac yn gwerthfawrogi
- Rydym yn dirprwyo lle'n briodol
- Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd ymgynghorol
- Rydym yn parchu pobl a'u safbwyntiau
- Rydym yn deg a chyson
- Rydym yn cyfathrebu'n effeithiol
- Rydym yn gweithio mewn dull gweladwy ac â meddwl agored
- Rydym yn hyrwyddo gwaith tîm
- Rydym yn hyrwyddo adnabod a meithrin talent arweinyddiaeth

### GORMOD

- Mae gormod o bwysau yn cael ei roi ar staff
- Mae targedau'n cael eu gosod â disgwyliadau afrealistig
- Mae staff yn cael eu microreoli
- Mae arweinyddion yn rheoli staff iau trwy ofn
- Mae'r ethos pennaf yn unbenaethol
- Nid yw staff yn cael eu trin yn gyfartal
- Mae safbwyntiau staff a gwirfoddolwyr yn cael eu hanwybyddu

RHEILFFYRDD FFESTINIOG AC ERYRI
FFESTINIOG & WELSH HIGHLAND RAILWAYS

## CYFATHREBU

### RHYYCHYDIG

- Grwpiau caeëdig yn codi
- Mae diwylliant 'ni a nhw'
- Mae cyfathrebu yn cael ei gyfyngu ar sail 'angen i wybod'
- Nid yw barnau pobl eraill yn cael eu hystyried
- Mae cyfathrebu yn amhersonol
- Nid yw staff yn ymateb pan ofynnir
- Mae penderfyniadau'n cael eu gwneud heb ymgynghori â phartïon perthnasol

### EIN FFORDD

- Rydym yn cyfathrebu'n agored
- Rydym yn gwrando'n astud
- Rydym yn agored ac yn onest
- Rydym yn gwerthfawrogi cyfathrebu personol yn fwy nac anfon negeseuon electronig
- Rydym yn croesawu adborth cadarnhaol ac adeiladol
- Rydym yn herio'n gilydd pan fydd angen
- Rydym yn parchu cyfrinachedd lle bo angen

### GORMOD

- Mae staff a chwsmeriaid yn cael eu gorlwytho â gwybodaeth ddiangen
- Gall gwybodaeth gyfrinachol gael ei datgelu
- Mae tuedd i siarad o gwmpas problemau yn hytrach na'u datrys
- Gormod o bwyllgorau a sianelau cyfathrebu

RHEILFFYRDD FFESTINIOG AC ERYRI
FFESTINIOG & WELSH HIGHLAND RAILWAYS

## PROFFESIYNOLDEB

### RHYYCHYDIG

- Mae staff yn gwneud y lleifaswm eithaf
- Mae staff yn anwybyddu cwestiynau a barn pobl eraill
- Nid yw staff yn cymryd balchder yn eu swyddi
- Mae staff yn anghofio bod y cyhoedd yn gweld ac yn clywed beth sy'n digwydd
- Gwahaniaethir yn erbyn unigolion
- Mae 'diwylliant o feio'
- Mae awyrgylch o foesau gwael ac agweddau drwg

### EIN FFORDD

- Mae gennym agwedd "gallu gwneud" gadarnhaol
- Rydym yn 'mynd y filltir ychwanegol'
- Rydym yn darparu argraff gyntaf a pharhaol dda
- Mae gennym feddwl busnes, â min arloesol
- Mae gennym ddiwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw
- Rydym yn realistig ac yn darparu'r hyn rydym yn ei gynnig
- Rydym yn brydlon
- Rydym yn gweithredu diwylliant 'dim beio'

### GORMOD

- Mae staff yn rhoi'r swydd o flaen y cwsmer
- Nid oes lle ar gyfer cyfaddawd
- Mae staff yn anodd mynd atynt ac yn swyddoglyd
- Mae staff yn addo'r hyn nad ydynt yn gallu'i ddarparu
- Mae staff yn arddangos ymagwedd 'gwerthu caled' at gwsmeriaid
- Mae diwylliant lle mae staff yn beio pobl eraill ac nid ydynt yn parhau â'r gwaith

RHEILFFYRDD FFESTINIOG AC ERYRI
FFESTINIOG & WELSH HIGHLAND RAILWAYS

## GWERTHFAWROGI'N CYMUNED A'N CEFNOGWYR

### RHYYCHYDIG

- Mae cyfathrebu gwael â chefnogwyr neu nid yw'n bodoli
- Mae ychydig o barch at y gymuned a'r amgylchedd lleol
- Nid yw cyfraniadau'r cefnogwyr yn cael eu cydnabod yn gywir
- Nid oes cydweithio â sefydliadau nac awdurdodau lleol
- Mae'r sefydliad yn ymbellhau oddi wrth y gymuned

### EIN FFORDD

- Rydym yn parchu'r gymuned a'r amgylchedd mae'r Cwmni wedi'i leoli ynddynt
- Rydym yn ymgysylltu â chefnogwyr, gan roi ystyriaeth ddifrifol i'w safbwyntiau a'u syniadau
- Rydym yn cysylltu â sefydliadau lleol ac yn cyfathrebu'n effeithiol
- Rydym yn cydnabod yr arbenigedd a gynigir gan ein cefnogwyr
- Rydym yn rhoi lle pwysig i'r economi leol yn ein meddwl bob amser
- Rydym yn cynnwys yr economi leol yn ystod digwyddiadau mawr y rheilffordd

### GORMOD

- Mae ymdrechion i ymarfer gormod o bŵer o fewn y gymuned
- Mae gofynion gormodol am gyfraniadau gan gefnogwyr teyrngar
- Mae penderfyniadau yn cael eu gwneud heb gynnwys y gymuned leol
- Mae gorgyfathrebu â chefnogwyr

RHEILFFYRDD FFESTINIOG AC ERYRI
FFESTINIOG & WELSH HIGHLAND RAILWAYS

## YMWYBYDDIAETH O DREFTADAETH

### RHYYCHYDIG

- Nid yw pryder am dreftadaeth ar y radar
- Mae deunydd treftadaeth yn cael ei waredu, neu'i ddifrodi, heb asesu ei werth cynhenid
- Nid oes ymgynghori ag eraill am bwysigrwydd deunydd treftadaeth

### EIN FFORDD

- Rydym yn wybodus am ein treftadaeth
- Rydym yn gwerthfawrogi ac yn gweithio mewn ffyrdd sy'n parchu deunyddiau treftadaeth a ffyrdd traddodiadol o weithio
- Rydym yn gwerthfawrogi lle'r rheilffordd yng nghyd-destun cymunedau a diwydiannau lleol a rhanbarthol
- Rydym yn gwerthfawrogi:
  - Cerbydau
  - Adeiladau
  - Seilwaith
  - Y lleoliad mae'r Rheilffordd yn gweithredu ynddo
  - Pobl gorffennol y rheilffordd a'u cyfraniadau

### GORMOD

- Mae pryder gormodol am dreftadaeth yn rhwystro'r sefydliad rhag datblygu a symud ymlaen
- Mae diogelwch yn cael ei gyfaddawdu gan y defnydd o'n cyfarpar neu ddeunyddiau wedi dyddio
- Mae camwybodaeth am dreftadaeth y sefydliad yn dod i gael ei dderbyn yn gywir ac mae'n camarwain pobl
- Amodau gormodol yn cael eu gosod ar ddatblygiadau newydd

RHEILFFYRDD FFESTINIOG AC ERYRI
FFESTINIOG & WELSH HIGHLAND RAILWAYS

## CYNHWYSIANT AC AMRYWIAETH

### RHYYCHYDIG

- Peidio â herio agweddau ac ymddygiadau anghynhwysol
- Cymryd opsiynau recriwtio hawdd
- Ei adael i'r lleill *"Nid fy mhroblem i ydi hi"*
- Aros mewn man cyfforddus
- Dim ond siarad â'r rheini rydym yn eu hadnabod
- Peidio ag ymrwymo amser ac adnoddau i adeiladu rhwydwaith
- Peidio â chymryd amser i ddeall anghenion

### EIN FFORDD

- Creu man croesawgar a diogel lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi
- Rydym yn gwerthfawrogi cynhwysiant ac amrywiaeth
- Ceisio'n rhagweithiol i barhau i ddiddori amrediad amrywiol o bobl
- Cymryd ymagwedd tîm at amrywiaeth a helpu eraill i ddeall
- Tyfu rhwydwaith cryf, gweld cyfle ac agor persbectif

### GORMOD

- Gorbwysleisio amrywiaeth i eithrio anghenion eraill
- Methu talent mewn ymgyrch am amrywiaeth
- Gormod o bwyslais ar safbwyntiau unigol; disgwyl i un unigolyn siarad dros bawb
- Colli golwg ar anghenion y busnes
- Sylw annigonol yn cael ei roi i aelodau'r tîm presennol
- Gormod o sylw'n cael ei roi i unigolyn yn hytrach nac anghenion tîm

RHEILFFYRDD FFESTINIOG AC ERYRI
FFESTINIOG & WELSH HIGHLAND RAILWAYS

## DIOGELU'R DYFODOL

### RHYYCHYDIG

- Nid yw cyfleoedd yn cael eu hadnabod na'u gwireddu. Mae agwedd *'rydym wedi'i wneud fel hyn bob amser'* at newid
- Nid yw safbwyntiau gwirfoddolwyr na staff yn cael eu hystyried
- Mae newidiadau'n cael eu gwneud heb ymgynghori â'r gynulleidfa leol
- Mae prosesau gwneud penderfyniadau yn rhy hir
- Mae niferoedd arwyddocaol o wirfoddolwyr a staff yn brin o ymrwymiad i'r Cwmni a'i amcanion

### EIN FFORDD

- Rydym yn cydnabod ac yn cofleidio cyfleoedd cadarnhaol
- Rydym yn cyflwyno ymarferion newydd i aros yn ddyfeisgar a chystadleuol
- Rydym yn gwrando ar safbwyntiau gwirfoddolwyr a staff
- Rydym yn cysylltu'n gadarnhaol â'r gymuned leol
- Rydym yn ymchwilio'n effeithiol i brosiectau ac yn gwneud penderfyniadau gwybodus
- Rydym wedi ymrwymo i'r Cwmni a'i amcanion

### GORMOD

- Mae prosiectau afrealistig ac amhriodol yn cael eu cychwyn
- Mae newid yn cael ei orfodi heb ystyriaeth gywir i dreftadaeth unigryw y Cwmni
- Caniateir i gliciau ffurfio ac mae eu safbwyntiau yn cael blaenoriaeth
- Mae penderfyniadau'n cael eu gwneud heb ystyried anghenion yr ardal leol.
- Mae'r ysbryd arloesol, a'r hwyl o weithio i'r Cwmni yn cael eu hanghofio

RHEILFFYRDD FFESTINIOG AC ERYRI
FFESTINIOG & WELSH HIGHLAND RAILWAYS

## BWLIO AC AFLONYDDU

### RHYYCHYDIG

- Anwybyddu cellwair tramgwyddus
- Peidio bod yn wyliadwrus am yr arwyddion fod bwlio yn digwydd
- Goddef unigolion sy'n dewis peidio â mabwysiadu'n Gwerthoedd ac Ymddygiadau

### EIN FFORDD

- Rydym yn tynnu sylw at ymddygiadau gwael ac yn cymryd cwynion o ddifrif
- Rydym yn cymryd gofal i ddiogelu achwynwyr a'r rheini yr achwynnir yn eu herbyn
- Rydym yn deall bod gan bobl sensitifrwyddau a goddefiadau gwahanol

### GORMOD

- Cyfyngu datblygiad a chyfraniadau trwy herio a chwestiynu gormodol

# Rhan Tri – Golwg yn ôl
# Sut wnaethon ni yn ystod Blynyddoedd y Rheilffordd Gynaliadwy?

Mae cyflawni yn gallu cael ei fesur mewn sawl ffordd. Yn y paragraffau canlynol rydym yn edrych ar y darlun eang, wedyn yn ystyried a gyflawnodd y Rheilffordd Gynaliadwy ar y prosiectau penodol a gafodd eu hadnabod un flynedd ar ddeg yn ôl.
Yr un rhai yw'r meini prawf ar gyfer beirniadu cynaliadwyedd ag ar gyfer gweithredu adfywiol – economeg, cymuned, ac amgylchedd.

Gofynnodd dod yn gynaliadwy inni ddatblygu'r rheilffordd i ateb anghenion heddiw mewn ffordd nad oedd yn cyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain. Ein nod oedd rheilffordd addas i'r pwrpas yn yr unfed ganrif ar hugain – addas i'r pwrpas mewn ffordd oedd yn gyson â bod yn arweinyddion mewn cadwraeth. Ni newidiodd y llwybr; ond newidiodd gwelliannau i'r cyfleusterau sy'n gwneud i reilffordd weithio fel gorsafoedd a depos ac fe wnaethom ddarparu cerbydau gwell i'n cwsmeriaid deithio ynddynt.

Roedd y rheilffordd wedi adeiladu dyled hirdymor sylweddol erbyn y 2000au cynnar, gan ddod i uchafbwynt ar £1.75m yn 2003 ac roedd y rheilffordd yn parhau mewn dyled trwm un flynedd ar ddeg yn ôl. Mae dyled hirdymor yn awr wedi cael ei dileu.

Mae'r Rheilffordd Gynaliadwy wedi talu am ei chostau parhaol yn llwyddiannus o'r incwm a'r rhoddion a gynhyrchodd. Pe na byddai wedi, yna byddai dyledion wedi cynyddu ac i unrhyw gwmni mae hynny'n anghynaliadwy yn y tymor hirach. Fe wnaethom elw cymedrol bob blwyddyn. Mae'r amcan wedi bod i ddarparu clustog/lleddfiad ar gyfer ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth fel y tywydd, a chyflwr yr economi genedlaethol, tra'n darparu rhywfaint o gyfraniad tuag at adnewyddiadau a gwelliannau mawr.

Gwellodd y rheilffordd yr hyn mae'n ei gynnig i'w chwsmeriaid a'i chefnogwyr. Mae sut y digwyddodd hyn ynghlwm â prosiectau penodol ac mae'n cael ei ddisgrifio yn yr adran nesaf. Mewn termau cyffredinol, gwellodd ein cerbydau yn fawr, gan ddod, gellir dadlau yn rhai mwyaf cyfforddus ar unrhyw reilffordd treftadaeth. Sefydlogodd patrwm gwasanaeth trên ag enillion tebyg ar y ddwy reilffordd. Roedd enillion fesul trên yn dda wrth safonau diwydiant. Amrywiodd gweithgareddau atodol – arlwyo a manwerthu. Aethpwyd i'r afael â chyfleusterau – megis gweithdai a gorsafoedd – gam wrth gam. Adeiladodd ein gweithfeydd enw da am ansawdd sydd wedi cynhyrchu archebion am gerbydau a gwaith arall o reilffyrdd eraill ledled y DU



*Roger Dimmick*

Mae'r rhaglen fawr o weithfeydd a gynhaliwyd dros yr un flynedd ar ddeg diwethaf o dan y Rheilffordd Gynaliadwy wedi cael ei chyllido heb fenthyg. Mae'r rheol yn awr yn eithaf syml. Nid ydym yn gwario arian sydd ddim gennym.

Mae'r model busnes hwn wedi gweithio'n dda am y rhan fwyaf o flynyddoedd y Rheilffordd Gynaliadwy. Ond, mewn blynyddoedd diweddar mae'n costau wedi codi'n gyflymach na lefelau tocynnau gan arwain at wasgfa ar elw. Mae hyn wedi bod yn gymwys i gostau cyflogau yn enwedig – i raddau helaeth o ganlyniad i bolisi Llywodraeth.

Cadwodd y rheilffordd ddyled tymor byr yn ffurf gorddafft trwy gydol blynyddoedd y rheilffordd gynaliadwy. Blwyddyn ar ôl blwyddyn rydym wedi defnyddio'r rhan fwyaf o'n cyfleuster gorddafft erbyn dechrau Ebrill – ac wedyn gwelsom hyn yn lleihau wrth i refeniwau adeiladu o'r Pasg ymlaen. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod y rheilffordd yn gwario trwy gydol y flwyddyn ond mae'n ennill y rhan fwyaf o'i refeniw mewn saith mis.

Golygodd Covid y bu'n rhaid inni gau bedwar diwrnod cyn bod y tymor i fod i ddechrau yn 2020. Ni ddaeth y refeniwau a ddisgwylid i dalu'r gorddrafft hwnnw erioed. Cafodd benthyciadau gan yr Ymddiriedolaeth a'r ddwy Gymdeithas eu trefnu ar rybudd byr iawn. Cyd-dynnodd pob rhan o'r rheilffordd heb ffwdan na dadl a galluogodd hyn y rheilffordd i oroesi'r sioc cwbl annisgwyl a achoswyd gan y pandemig. Arweiniodd Covid at eithriad i'n rheol gyffredinol fod rhoddion yn cael eu defnyddio ar gyfer gwelliannau. Aeth y rhan fwyaf o'r cyllid brys a roddwyd gan gefnogwyr i gyllido treuliau craidd y byddem fel arall wedi'u cyllido o refeniw. Ein bwriad yw y dylai hyn aros yn eithriad.

## Y prosiectau y gwnaethom eu rhestru un flynedd ar ddeg yn ôl

Roedd y Rheilffordd Gynaliadwy yn cynnwys rhestr amlinellol o brosiectau – ag amcangyfrifon damcaniaethol. Roedd y rhestr i fod i gael ei darparu dros ddeng mlynedd. Mae'n cefnogwyr yn haeddu gwybod pa mor bell mae'r prosiectau hyn wedi cael eu darparu.

### *Porthmadog*

Roedd ailfodelu Gorsaf Harbwr Porthmadog yn waith mawr yn cynnwys estyn ôl troed yr orsaf ag arglawdd wedi'i ledu a wal donnau newydd, newidiadau trac mawr, platfform newydd â Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri gyferbyn â'i gilydd, ac ailsignalu. Cafodd ei gwblhau yn 2014.

### *Boston Lodge*

Cafodd cerbyd newydd a siediau locomotifau eu cynnwys yn ein rhestr prosiectau – ond nid y gwaith rhagarweiniol a fyddai'n angenrheidiol yn Boston Lodge cyn y gallai gwaith ar y cyfeusterau hyn ddechrau.

Mae'r her gadwraeth yn enfawr a'r safle yn gyfyng iawn, felly roedd canfod lle ar gyfer y cyfleusterau angenrheidiol hefyd yn aruthrol o heriol. Yn ymarferol rydym wedi gweithio o'r cyrion tuag at y canol i sicrhau y gallai'r safle barhau i weithredu tra digwyddodd ailadeiladu. Mae rhai gweithgareddau wedi cael eu symud i ffwrdd o Boston Lodge i



Mae'r ardal a ehangwyd yn fawr yng Ngorsaf yr Harbwr yn awr yn gallu derbyn hyd at dri thrên teithwyr ar yr un pryd. *(Dave Thurlow)*

ddarparu cyfleusterau gwell ar gyfer y gweithgareddau hynny, ac i wneud digon o le ar gyfer y pethau hynny na allem eu symud.

Roedd y safle yn brin o fynediad cywir – neu wasanaethau fel draenio i unrhyw beth tebyg i safonau modern. Roedd rhaid i'r materion hyn gael eu datrys cyn y gallai unhyw beth arall ddigwydd. Mae'r gweithfeydd galluogi wedi cynnwys mynediad ffordd newydd, parcio, system ddraenio newydd i safonau modern a wal fôr. Yn ogystal â'r gweithfeydd galluogi sylfaenol hyn, rydym wedi symud gweithgareddau seilwaith i Finffordd, wedi estyn y safle, wedi adeiladu sied gerbydau newydd ar gyfer cerbydau treftadaeth, wedi cwblhau'r sied gerbydau fawr (sy'n byw i'w henw ac yn darparu sied redeg i dri thrên / 30 cerbyd) a wedi adfer un o'r adeiladau treftadaeth (Siop y Gof) i'w defnyddio gan wirfoddolwyr.

Mae hyn yn ddechrau da ac yn cynrychioli bron £3m, y cwbl ohono wedi dod gan roddwyr. Bydd cwblhau prosiect Boston Lodge, sy'n bwriadu adfer ein treftadaeth a darparu cyfleusterau newydd i safon uchel ar yr un pryd, yn nod i'r Rheilffordd Adfywiol.

### *Minffordd*

Yn 2011 roedd Minffordd yn llawn o drelars a chynwysyddion yn dirywio oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer storio, ac o wageni a deunydd treftadaeth arall wedi'u gadael yn yr awyr agored. Mae'r trelars a'r cynwysyddion wedi mynd, wedi'u disodli gan weithdy, cegin, a siediau storio. Mae gan ein 200 wagen treftadaeth – llawer ohonynt yn yr awyr agored yn flaenorol – gartref yn awr yn y sied wageni treftadaeth.

### *Adeiladau Hanesyddol*

Dechreuodd gwaith ar adfer adeiladau treftadaeth Rheilffordd Ffestiniog yn 2008 a'r Hen Sied Locomotifau yn Boston Lodge. Mae Sied Nwyddau Minffordd a'r Efail yn Boston Lodge wedi cael eu hadfer o dan y Rheilffordd Gynaliadwy. Mae adfer cyfran fawr o adeiladau treftadaeth y rheilffordd sy'n weddill yn cael ei gynnwys o fewn prosiect Boston Lodge.

### *Gorsaf Blaenau*

Mae Blaenau yn orsaf rhyngnewid sy'n cael ei rhannu â Network Rail / Trafnidiaeth i Gymru. Cafodd y syniad o ddatblygu'n cynllun ein hunain ei oddiweddyd gan welliannau a gynlluniwyd gan Drafnidiaeth i Gymru. Mae graddfeydd amser ar gyfer y prosiect hwnnw wedi cael eu heffeithio gan Covid ac yn ansicr. Mae'r egwyddor o gytuno â chynllun cenedlaethol Trafnidiaeth i Gymru ar gyfer gorafosedd yn parhau'n ddilys.

### *Locomotifau Diesel Newydd*

Nid ydym wedi prynu nac adeiladu unrhyw rai. Roedd hyn ar y rhestr fel rhywbeth i'w wneud yn rhan ddiweddarach y cynllun. Mae'r byd wedi newid a bydd y Rheilffordd Adfywiol yn chwilio am ffordd newydd ymlaen.

### *10 cerbyd newydd neu wedi'u hailadeilau'n llwyr.*

Rydym wedi mynd y tu hwnt i'r amcan hwn yn arwyddocaol – â 18 o gerbydau newydd



Mae'r aräe ffotodrydanol ar y Sied Cerbydau Mawr Newydd yn Boston Lodge yn cyflenwi llawer o'r pŵer sy'n ofynnol gan y Gwaith. *(Dave Thurlow)*

neu wedi'u hailadeiladu'n sylweddol. Rydym wedi adeiladu naw cerbyd Ffestiniog newydd (Rhifau 103, 108, 117, 118, 119, 120, 125, 150, 152 a 808), pedwar cerbyd Eryri newydd (Rhifau 2046, 2047, 2048, a 2152) ac wedi cynnal tri ailadeiladiad mawr o gerbydau Rheilffordd Eryri (Nos.2091, 2040, a 2042). Ar yr un pryd mae replica o gerbyd Rheilffordd Ffestiniog Rhif 21 wedi cael ei gwblhau fel prosiect a noddwyd gan wirfoddolwyr. Y swm enwol a ddarparwyd oedd £1.2m – gwariant gwirioneddol £2.1m, daeth y cwbl ohono o roddion, elwau cwmni, ac elwau Teithio Ffestiniog.

### *Gorsaf Caernarfon*

Mae'r portacabins wedi mynd – wedi'u disodli gan orsaf newydd ysblennydd ar safle sensitif iawn nesaf at Gastell Caernarfon; yn rhan ei hun o Safle Treftadaeth Byd. Nid yw'r orsaf ar hen safle gorsaf – mae'n gyfredol a chafodd ei chynllunio i wneud beth sydd ei angen mewn ffordd a gyfannodd y Castell canoloesol a'r arglawdd Fictorianaidd y tu ôl i'r orsaf. Cafodd ei agor gan Gadeirydd Cronfa Dreftadaeth y Lotri Genedlaethol yn 2019. Y gost wirioneddol oedd £3.15m, dwy draean ohono yn dod o grantiau Llywodraeth. (Profodd y swm enwol o £1m a ddangoswyd yn y Rheilffordd Gynaliadwy yn danamcangyfrif sylweddol)

### *Dinas*

Perthynai hanner o'r Siop Adeiladu bresennol i Dŵr Cymru, a chafodd hon ei phrynu a'i throsi i ddefnydd rheilffordd. Ers hynny mae'r adeilad cyfan hwn wedi cael ei ail-doi, a gwelliannau gwresogi. Ond mae gwelliannau mawr yn aros i gael eu gwneud. Bydd Dinas yn flaenoriaeth ar gyfer y Rheilffordd Adfywiol.

### *Gorsafoedd Canolraddol*

Mae'r achos economaidd dros wario symiau mawr ar orsafoedd canolraddol wedi bod yn wan, yn syml oherwydd yn ystod blynyddoedd y Rheilffordd Gynaliadwy teithiodd y rhan fwyaf o deithwyr ar hyd y lein gyfan. Fodd bynnag, mae llawer o orsafoedd canolraddol ac adeiladau yn bwysig yn hanesyddol ac yn ychwanegu cymeriad. Mae safonau newydd wedi cael eu gosod trwy'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni. cafodd gorsaf newydd ei hagor yn Waunfawr ar yr un diwrnod â Gorsaf Caernarfon. Mae tŷ'r rheilffordd yng Nghoed y Bleiddiau wedi cael ei adfer mewn cydweithrediad â'r Landmark Trust. Efallai nad yw hon yn orsaf yn yr ystyr ffurfiol ond mae'n fan aros achlysurol ac yn dirnod amlwg ar Reilffordd Ffestiniog.

### *Gwelliannau Signalu ar Reilffordd Eryri*

Mae system arloesol iawn (Micro - ETS), a ddyfeisiwyd gan un o'n cefnogwyr, wedi cael ei gosod rhwng Porthmadog a Rhyd Ddu. Mae hyn yn cyfuno technoleg ddigidol â'r System Tocyn Trydan (Fictorianaidd yn y lle cyntaf) ac â signalau cychwyn cydgloëdig i reoli llinellau sengl yn ddiogel.

### *Cyfanswm buddsoddiad*

£10.5m. O gymharu, yr amcangyfrif damcaniaethol a ddangoswyd yn y Rheilffordd Gynaliadwy yn 2011 oedd £8.6m

John Prideaux



Mae golygfa o'r awyr o Iard Minfford yn datgelu'r Sied Nwyddau a ailadeiladwyd a'r sied Waggon Tracks newydd (chwith) y Gweithdy Seilwaith newydd (canol), a dwy sied storio newydd, y cwbl wedi'u hadeiladu ers 2011. *(Dave Thurlow)*



Mae Rheilffordd Ffestiniog yn rhan gyflawn o'r tirweddau gwledig yn ogystal â threfol wrth iddi wau ei ffordd trwy Danygrisiau. *(Dave Thurlow)*

# Sut rydych chi'n gallu helpu

**Mae'r rheilffordd wedi goroesi a datblygu trwy gymorth hael llawer o bobl. Rydym yn gobeithio y byddwch chi'n dymuno helpu. Mae llawer o ffyrdd o helpu. Mae'r rhain yn cynnwys gwneud cyfraniad, gadael rhodd, dod yn wirfoddolwr, ymuno â'r naill neu'r llall o'r ddwy gymdeithas gynorthwyol, neu gymryd gwyliau trwy'n cwmni teithio. Mae'r cysylltiadau canlynol yn gallu'ch helpu i gymryd y cam nesaf.**

## I roi neu gyfrannu at yr apeliadau wedi'i hanelu at wireddu'r prosiectau a amlinellir yn y weledigaeth hon:

Dylai cyfraniadau gael eu hanfon at Welsh Highland Railways Trust / Ymddiriedolaeth Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri (Elusen Gofrestredig Rhif 239904)).
Gwnewch sieciau yn daladwy i 'Ymddiriedolaeth Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri' ac os ydych chi'n drethdalwr yn y DU, gofynnwch am, neu amgaewch, ddatganiad rhodd gymorth a'u hanfon at:
J Scarisbrick, Trysorydd, Ymddiriedolaeth Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri, Gorsaf yr Harbwr, Porthmadog, LL49 9NF jscarisbrick@ffwhr.com

## I ymholi am nawdd neu adael rhodd

Yr Ysgrifennydd, Ymddiriedolaeth Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri, Gorsaf yr Harbwr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NF (Elusen Gofretsredig Rhif 239904). rholton@ffwhr.com Dylai rhoddion gael eu gwneud yn daladwy i'r Ymddiriedolaeth yn y cyfeiriad uchod, os gwelwch chi'n dda.

## I wirfoddoli

Os ydych chi wedi gwirfoddoli o'r blaen dilynwch weithdrefnau presennol (os oes unrhyw amheuaeth cysylltwch ag arweinydd eich tîm gwirfoddolwyr neu reolwr adran). Os nad ydych cysylltwch ag Iain Wilkinson, Gorsaf yr Harbwr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NF. (iwilkinson@ffwhr.com)

## I ymuno neu i gyfrannu at Gymdeithas Rheilffordd Ffestiniog

Cofrestrydd: M W Cowgill registrar@ffestiniograilway.org

## I ymuno neu i gyfrannau at Gymdeithas Rheilffordd Eryri / The Welsh Highland Railway Society

Ysgrifennydd Aelodaeth: Richard Watson rwatson@chre.uk 01328 853144

## I gymryd gwyliau trwy Teithio Ffestiniog

www.ffestiniogtravel.com

Mae Teithio Ffestiniog o dan berchnogaeth yr Ymddiriedolaeth ac mae'r holl elwau yn mynd i gronfa gyffredinol yr elusen. Mae pob gwyliau rydych yn eu cymryd trwy Teithio Ffestiniog yn helpu'r ddwy reilffordd. Mae'n unig gwmni teithio wedi'i gyfeirio at reilffyrdd dan berchnogaeth elusen, yn ogystal â'r unig un yng Ngogledd Cymru. Mae cefnogi Teithio Ffestiniog yn helpu i gynnal cyflogaeth yng Ngogledd Cymru wledig yn ogystal â'r rheilffordd. info@ffestiniogtravel.co.uk +44(0) 1766 512400




Mae adeilad newydd yr orsaf yng Nghaernarfon wedi cael ei gynllunio'n benodol i ateb anghenion cwsmeriaid yr unfed ganrif ar hugain.
*(John Dobson)*

